Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru – Atodiad

## 2023-2024

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50060, ISBN digidol 978-1-83625-327-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel** | | |
| 1 | **Sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd.** | Mae Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ar y trywydd iawn i dderbyn ei charfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Medi 2024. Cwblhawyd y cyfweliadau â Myfyrwyr yn gynharach eleni ac mae cynigion wedi cael eu rhoi. Bydd Prifysgol Bangor yn trefnu digwyddiad lansio ddechrau'r hydref. Mae proses achredu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn parhau i fynd rhagddi'n dda ac mae bellach wedi cyrraedd Cam 7 y broses ac mae Prifysgol Caerdydd yn parhau i fod yn bartner wrth gefn. Bydd lansio'r Ysgol Feddygol newydd yn ein galluogi i hyfforddi mwy o fyfyrwyr meddygol yma a sicrhau ein bod yn dosbarthu cyfleoedd hyfforddi ac yn darparu meddygon cymwys ledled Cymru. Bydd nifer y myfyrwyr yn parhau i gynyddu o flwyddyn academaidd 2024-25 hyd nes y byddant yn cyrraedd capasiti llawn o 140 o fyfyrwyr y flwyddyn yn 2029-30. |
| 2 | **Darparu triniaethau a ohiriwyd yn sgil y pandemig.** | Rydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran lleihau amseroedd aros hir – bu gostyngiad yn yr amseroedd aros o fwy na dwy flynedd (104 wythnos) bob un mis am ddwy flynedd. Erbyn mis Mawrth 2024, roeddent 71% yn is na'u huchafbwynt wedi'r pandemig. Yn ein *Rhaglen i Drawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd a Lleihau Rhestrau Aros yng Nghymru*, nodwyd ein cynlluniau ar gyfer lleihau'r ôl-groniad yn sgil y pandemig a gosodwyd targedau. Er nad yw'r targedau absoliwt wedi cael eu cyflawni eto, dim ond 2.7% o'r rhai sy'n aros am driniaethau a gynlluniwyd sy'n aros mwy na dwy flynedd, ac maen nhw bellach yn yr arbenigeddau heriol iawn a nodwyd gennym. Yn 2022, pan gyhoeddwyd y cynllun, roedd cyfnodau aros o fwy na 104 wythnos mewn 34 o arbenigeddau – roedd hyn yn 17 erbyn mis Mawrth 2024. Mae'r cynnydd o ran lleihau amseroedd aros cleifion allanol i 52 wythnos wedi bod yn fwy heriol, gan fod byrddau iechyd wedi bod yn canolbwyntio ar drefnu apwyntiadau a gweld pobl ar lwybrau brys a llwybrau canser. Roedd perfformiad canser ym mis Mawrth 2024 ar ei lefel uchaf ers dwy flynedd. Mae perfformiad gofal brys ac argyfwng wedi aros yn weddol sefydlog er bod mwy nag erioed o bobl ag anghenion gofal brys ac anghenion gofal sy'n peryglu bywyd yn defnyddio gwasanaethau'r GIG drwy wasanaethau ambiwlans 999 neu'n uniongyrchol mewn adrannau brys. |
| 3 | **Darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.** | Mae prosesau bellach ar waith mewn 95% o feddygfeydd i osgoi'r dagfa am 8 y bore a galluogi pobl i gysylltu â'r feddygfa i drefnu apwyntiad drwy gydol y dydd, a threfnu apwyntiadau ymlaen llaw. Darparwyd bron i £1m gennym yn 23/24 i gynyddu capasiti Nyrsio Ardal ar benwythnosau a gwella mynediad at Nyrsys Gofal Lliniarol Arbenigol Cymunedol ar benwythnosau. Mae 83% o'r gwasanaethau deintyddol cyffredinol a gomisiynir yn gweithio o dan gontract diwygiedig. Derbyniodd 140,000 o gleifion newydd gwrs llawn o driniaeth ddeintyddol y GIG a derbyniodd 84,000 o gleifion newydd ofal brys. Gall pobl gael gafael ar Wasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol mewn 99% o fferyllfeydd ac mae presgripsiynwyr bellach ar gael mewn 1 o bob 4 fferyllfa sy'n darparu mynediad am ddim at gyngor a thriniaeth, yn aml heb fod angen gweld meddyg teulu. Mae'r £5m cylchol i gynyddu nifer y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn gofal sylfaenol a chymunedol wedi arwain at greu dros 88 o swyddi cyfwerth ag amser llawn newydd. Drwy gyflwyno deddfwriaeth newydd a diwygio contractau, rydym wedi ehangu cwmpas y gwasanaethau gofal llygaid a ddarperir gan ofal sylfaenol optometreg yng Nghymru. Cyflwynwyd modelau gwasanaeth awdioleg newydd i gefnogi pobl mewn gofal sylfaenol a chymunedol, gan ddarparu, er enghraifft, mynediad uniongyrchol at Ymarferwyr Awdioleg Uwch mewn lleoliadau gofal sylfaenol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 4 | Diwygio gofal sylfaenol, gan ddod â gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector at ei gilydd. | Mae'r gwaith parhaus o ddiwygio'r holl gontractau gofal sylfaenol yn parhau i gefnogi gwell mynediad at ofal yn nes at adref. Dyma rai o'r prif lwyddiannau: diwygiadau parhaus i'r Fframwaith Contract Fferylliaeth Gymunedol gan adeiladu ar uchelgeisiau *Presgripsiwn Newydd/A New Prescription*, gan gynnwys ehangu'r rhestr o gyflyrau y gall fferyllfeydd ddarparu cyngor a thriniaeth am ddim ar eu cyfer o dan y Cynllun Mân Anhwylderau; Contract Unedig newydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (gwasanaethau meddygon teulu) sy'n dod â chysondeb i wasanaethau y mae'n rhaid i bob practis meddygon teulu yng Nghymru eu darparu; diwygiadau sylweddol i wasanaethau optometreg yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth glinigol yn y gymuned a diwygiadau parhaus i ddeintyddiaeth y GIG i ddarparu gwell mynediad at atal a gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion. Mae clystyrau a grwpiau cynllunio ar draws clystyrau wedi parhau i ddatblygu fel mecanweithiau ar lefel gymunedol a sirol i alluogi cydweithio rhwng meddygon teulu, fferyllwyr, nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal integredig yn y gymuned. Mae'r rhain yn caniatáu llwybr clir uniongyrchol rhwng gwasanaethau lleol a phartneriaid statudol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er mwyn dangos ein hymrwymiad i gynllunio gwasanaethau o dan arweiniad lleol, dyrannwyd cyllid ychwanegol yn 23/24 ar gyfer datblygu capasiti'r gweithlu amlbroffesiynol cymunedol ar raddfa fawr. |
| 5 | Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl. | Rydym yn parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant gyda £50m ychwanegol yn 22/23 a £75m yn 23/24 i gefnogi mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd gwasanaeth, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), cyswllt â gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a gwasanaethau anhwylderau bwyta i gefnogi ymyrraeth gynnar a mynediad amserol at wasanaethau. Buddsoddwyd hefyd mewn meysydd sy'n effeithio ar iechyd meddwl, gan gynnwys problemau camddefnyddio sylweddau, cyflogadwyedd ac atal. Yn 23/24, buddsoddwyd yn y gwasanaeth 111 pwyso 2 i gael cymorth iechyd meddwl brys ac mae'r gwasanaeth bellach ar gael ledled Cymru 24 awr y dydd, bob dydd ac mae dros 80,000 o bobl wedi'i ddefnyddio. Gwnaethom hefyd ddarparu £6m i gefnogi'r gwaith o weithredu'r *Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol* a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Nod hyn yw darparu gweithlu iechyd meddwl cynaliadwy yng Nghymru erbyn 2034. Rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2024, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol newydd, ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 6 | Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl. | Rydym wedi darparu adnodd penodol ar gyfer iechyd meddwl yng Ngweithrediaeth y GIG i sbarduno gwelliannau o ran ansawdd, diogelwch a pherfformiad gwasanaethau iechyd meddwl. Mae gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol arweinwyr NYTH (rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel a Hybu) er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu NYTH yn rhanbarthol a'r dull dim drws anghywir. Cyhoeddwyd *adnodd hunanasesu a gweithredu NYTH*, a gydgynhyrchwyd, ym mis Chwefror 2024 ac mae gweithdai rheolaidd yn cael eu cynnal i gefnogi sefydliadau i ddefnyddio'r adnodd. Mae hyfforddiant ar hawliau plant a NYTH, y gwnaethom ei lunio ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a phobl ifanc, bellach ar gael ar lwyfan dysgu Addysg a Gwella Iechyd Cymru – Y Tŷ Dysgu. Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno adroddiad NYTH blynyddol ym mis Hydref. Mae Mind Cymru wedi parhau i gyflwyno ymgyrch Amser i Newid Cymru sy'n ceisio rhoi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu sy'n wynebu pobl sydd wedi cael profiad o broblemau iechyd meddwl. Yn 23/24, recriwtiwyd a hyfforddwyd 34 o hyrwyddwyr cymunedol newydd Amser i Newid Cymru. Mae'r rhain yn wirfoddolwyr sydd â phrofiad bywyd o broblemau iechyd meddwl ac sy'n rhannu eu stori er mwyn codi ymwybyddiaeth a sicrhau newid. Mae 16 o gyflogwyr newydd wedi llofnodi'r Adduned Cyflogwr – datganiad sy'n dangos ymrwymiad sefydliad i gymryd camau ymarferol i leihau stigma ynghylch iechyd meddwl a chreu amgylchedd agored lle gall gweithwyr drafod eu hiechyd meddwl. |
| 7 | Cyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed 'o fewn cyrraedd' mewn ysgolion ledled Cymru. | Clustnodwyd dros £5.3m er mwyn parhau â darpariaeth mewngymorth ysgolion CAMHS Cymru gyfan yn 23/24 ac mae 117 o staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio mewn ysgolion. Mae gweithgarwch yn parhau i gael ei fonitro drwy *Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2023 i 2024* a thrwy ffrwd waith mewngymorth ysgolion y Bwrdd Trosolwg a Chyflawni Cyd-Weinidogol. Yn ystod yr haf, rydym yn adolygu gweithgarwch gyda'r bwriad o sefydlu targedau sylfaenol i helpu i fonitro, gwerthuso a sicrhau gwasanaeth cyson a theg ar draws Cymru gyfan. |
| 8 | Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol i helpu pobl sy'n teimlo'n unysig. | Lansiwyd y *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol* mewn digwyddiad ar-lein ym mis Rhagfyr 2023. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r iaith a ddefnyddir a'r dull presgripsiynu cymdeithasol a ddefnyddir yng Nghymru: cefnogi ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol drwy godi lefelau sgiliau, gosod y canlyniadau disgwyliedig o safbwynt pob defnyddiwr, sefydliad, comisiynydd ac atgyfeiriwr; a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Ni fydd yn pennu sut y caiff presgripsiynu cymdeithasol ei ddarparu mewn gwahanol gymunedau. I gefnogi'r Fframwaith Cenedlaethol, datblygwyd cyfres o ddogfennau canllaw ac adnoddau, gan gynnwys: fideo esboniadol, adroddiad yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos, *Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer Ymarferwyr Presgripsiynu Cymdeithasol* a geirfa. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 9 | Adolygu cynllunio llwybr cleifion a chyllid hosbisau. | Rydym yn parhau i flaenoriaethu gofal lliniarol a gofal diwedd oes ac mae cynnydd wedi parhau drwy gydol 23/24. Mae argymhellion adolygiad diwedd oes cam 2 ar gynyddu capasiti ar gyfer nyrsio ardal a nyrsio gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau a gwyliau banc yn cael eu datblygu fel rhan o'r rhaglen Ymhellach, yn Gyflymach. Cyflwynwyd argymhellion interim Cam 3 ar yr adolygiad gofal diwedd oes ym mis Chwefror 2024 ac maent wedi cael eu derbyn yn gyffredinol. O ganlyniad, mae gwaith wedi dechrau ar fframwaith comisiynu hosbisau gyda'r Cyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol ac mae grant cymhorthdal untro o £4m wedi'i roi i hosbisau a gomisiynwyd gan fyrddau iechyd sy'n darparu gwasanaethau GIG 'craidd'. Mae'r cyllid untro hwn wedi cefnogi hosbisau gyda chostau ynni a phwysau chwyddiant a'u galluogi i dalu codiadau cyflog sy'n gyfwerth â chodiadau cyflog Agenda ar gyfer Newid y GIG, gan felly eu helpu i gadw eu gweithlu. |
| 10 | Datblygu cynllun gweithredu HIV i Gymru. | Lansiwyd *Cynllun Gweithredu HIV i Gymru 2023-2026* ym mis Mawrth 2023, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Sefydlwyd rhwydwaith cydweithredol newydd, Llwybr Carlam Cymru (FTC), ac mae pedwar bwrdd iechyd yng Nghymru wedi ymuno â'r gynghrair hon. Yn ddiweddar, lansiodd Llwybr Carlam Cymru ymgyrch Stopio Stigma HIV Cymru, cynllun sy'n ceisio grymuso unigolion ledled Cymru, drwy ddarparu mwy o wybodaeth, i leihau gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â HIV. Cynhaliwyd Wythnos Profion HIV Cymru ym mis Tachwedd 2023 a dyma oedd yr ymgyrch fwyaf llwyddiannus hyd yma gan gofnodi bron i ddwy filiwn o argraffiadau ar-lein o gynnwys ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan arwain at gynnydd o 6.4% yn nifer y pecynnau profi ar-lein a archebwyd o'i gymharu â data 2022. Sefydlwyd Adolygiad chwemisol o'r Garfan sy'n cael Diagnosis Hwyr sy'n edrych ar achosion unigol lle cafwyd diagnosis hwyr yng Nghymru i nodi themâu cyffredin a rhannu arferion gorau. |
| 11 | Cyflwyno cod ymarfer statudol ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth. | Rhoddwyd y Cod ar waith ers mis Medi 2021, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Cyhoeddwyd cam cyntaf y gwerthusiad annibynnol o'r Cod Ymarfer ym mis Tachwedd 2023 a rhoddwyd argymhellion i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer eu hardaloedd. Bydd yr ail gam, sy'n canolbwyntio ar brofiad rhanddeiliaid, yn dechrau nawr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r Cod i gynnwys a thrafod pob cyflwr niwrowahanol ac i ddyletswyddau ymestyn i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwroamrywiaeth 2022-25, sydd wedi derbyn cefnogaeth gwerth £12m, bellach yn ei blwyddyn olaf. Dyrannwyd £5m i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 23/24 i barhau â'u gweithgarwch gwella i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer ADHD, datblygu'r gweithlu, casglu data, llwybrau atgyfeirio ac arloesi digidol. Mae ystyriaeth bellach hefyd yn cael ei rhoi i'r angen am waith ychwanegol i wreiddio ymhellach y cynnydd a wnaed hyd yma, ac i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am asesu a chymorth. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed** | | |
| 12* | Talu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal a, chan weithio gyda phartneriaid cymdeithasol drwy'r Fforwm Gwaith Teg, ystyried camau pellach tuag at sicrhau cydnabyddiaeth a gwobrwyo cydradd i weithwyr gofal. | Rydym yn symud i drydedd flwyddyn ariannol ein hymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ddarparu tua £113m i gefnogi'r ymrwymiad hwn yn ystod 22/23 a 23/24. Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o'r Cyflog Byw Gwirioneddol a fydd yn edrych i ddechrau ar ei weithrediad a'r profiad o'i ddarparu ar draws y sector. Mae is-grŵp o'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr ym maes Adnoddau Dynol ar draws y sector i ddatblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant drafft. Mae wedi canolbwyntio i ddechrau ar ofal uniongyrchol ar draws y sector annibynnol fel rhan o ddull gweithredu fesul cam. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Fframwaith drafft ym mis Mai 2023 ac mae'r gwersi a ddysgwyd o hyn yn parhau i lywio cam 2 y gwaith yn ystod 2024 sy'n cynnwys datblygu cyfres o rolau a disgrifiadau swydd templed. Mae gwaith parhaus y Fforwm hefyd yn cynnwys sefydlu 'Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Nod cyffredinol y bartneriaeth hon yw cytuno ar set sylfaenol o ddisgwyliadau o ran cyflogaeth ar gyfer staff sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol annibynnol. |
| 13 | Cynyddu prentisiaethau ym maes gofal a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg. | Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid ehangach i annog pobl i fanteisio ar brentisiaethau mewn gofal. Drwy ein cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym yn cefnogi rhaglen Gofalwn Cymru sy'n ceisio ymgysylltu â cheiswyr gwaith a rhoi gwybodaeth iddynt, codi proffil y sector, a darparu cefnogaeth i geiswyr gwaith a chyflogwyr. Mae'r ymgyrch wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth, ac mae adroddiad Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys tystiolaeth o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â Phorth Swyddi Gofalwn Cymru, a'r tudalennau prentisiaethau sydd wedi denu'r nifer mwyaf o ymwelwyr. Rydym hefyd wedi darparu £200,000 yn ystod 23/24 i gefnogi'r Gymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae modiwl eDdysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i gwblhau bellach, a bydd yn cael ei gynnwys yn rhaglen recriwtio Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol. Mae'r cwrs Camau Mynediad 1, 2 a 3 wedi'i gwblhau hefyd ac yn cynnwys fersiwn Gogledd a De Cymru, er mwyn i ddysgwyr allu dewis pa fersiwn i'w chwblhau yn dibynnu ar eu hardal ddaearyddol. Datblygwyd prosiect cynllunio gweithlu i gyflogwyr sy'n canolbwyntio ar gefnogi cyflogwyr i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gweithlu Cymraeg. |
| 14* | Sefydlu grŵp arbenigol i gynghori erbyn mis Ebrill 2022 ar y camau gweithredu ymarferol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth gofal cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. | Ar ôl ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Grŵp Arbenigol yn ofalus, rydym wedi datblygu dull tri cham o ddiffinio Cynllun gweithredu. Cyhoeddwyd *Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru – Cynllun Gweithredu Cychwynnol* ym mis Rhagfyr 2023 ac mae'n cynnwys ymchwil a gweithgarwch a fydd yn cael eu cyflawni erbyn diwedd tymor y llywodraeth. Bydd yr ymchwil a wneir yn helpu i ddatblygu'r gwaith o Weithredu Cam 2. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag argymhellion y Grŵp Arbenigol sy'n nodi y byddai'n cymryd tua 10 mlynedd i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn ei adroddiad. Mae gwaith wedi cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf i gyflawni'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, gan gynnwys sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn Llywodraeth Cymru, sydd wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2024, a gosod Cod Ymarfer newydd – *Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth* – yn ogystal â chryfhau trefniadau sy'n ymwneud â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy ddiweddaru'r Canllawiau Statudol Rhan 9 presennol a'r Cod Ymarfer Rhan 2 cyfredol. Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo, o dan arweiniad y Fforwm Gwaith Teg, i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 15* | Deddfu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio'r Cod Ymarfer ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu harfer gan awdurdodau lleol o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ogystal â rheoliadau newydd a Chanllawiau Statudol diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar drefniadau partneriaeth o dan Ran 9 o'r Ddeddf. Y nod yw cryfhau gwaith partneriaeth rhanbarthol er mwyn i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau gwell i'w poblogaethau lleol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud fel rhan o'n Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Mae'r newidiadau i God Ymarfer Rhan 2 yn canolbwyntio ar ddau brif faes: ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol drwy hyrwyddo dulliau nid-er-elw o ddarparu gofal a chymorth; a hyrwyddo cynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth, a'u gofalwyr di-dâl, wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, gan ddefnyddio egwyddorion cydgynhyrchu. Bydd y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol newydd o dan Ran 9 o'r Ddeddf yn mynd ati'n benodol i gryfhau rôl y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill at ei gilydd i helpu i asesu'r angen am ofal a chymorth a chynllunio gwasanaethau integredig i ddiwallu'r anghenion hynny. Aethom ati i ymgynghori ar ein newidiadau arfaethedig yn ystod haf 2023, ac agorodd ymgynghoriad pellach ar gyfres o Reoliadau newydd ym mis Ebrill 2024. Gosodwyd y Cod Ymarfer Rhan 2 diwygiedig gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2024. |
| 16 | Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal. | Buddsoddwyd cyfanswm o £43m ar draws Cymru drwy'r Gronfa Tai â Gofal yn 23/24. Mae'r Gronfa'n parhau i gefnogi darpariaeth gwasanaethau llety sy'n agos at gartref ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan fuddsoddi mewn oddeutu 25 o gynlluniau preswyl i blant a 6 chynllun llety dros dro, llety seibiant neu lety mewn argyfwng ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae buddsoddiadau eraill yn cynnwys 24 o gynlluniau byw â chymorth ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu, 6 chynllun i bobl hŷn, a 14 o gynlluniau llety â chymorth ar gyfer oedolion a theuluoedd sydd ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion cymorth a gofal eraill. |
| 17* | Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith. | Aethom ati i ehangu'r Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant ym mis Medi 2022, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Yn y flwyddyn academaidd gyntaf (2022-23), rhoddwyd cymorth i 675 yn rhagor o deuluoedd drwy'r Cynnig estynedig. Nod y cynllun cyfathrebu strategol a ddatblygwyd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yw gwella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n ei hawlio er mwyn annog mwy o rieni i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael. |
| 18* | Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg. | Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o'n gweledigaeth ehangach i ddatblygu system chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar cwbl integredig yng Nghymru. Daeth y gwaith o gyflwyno cam un yr ehangiad i ben ym mis Mawrth 2023 ac mae holl wasanaethau Dechrau'n Deg yn cael eu cynnig i tua 3,100 o blant ychwanegol o dan bedair oed. Dechreuodd y gwaith o gyflawni cam 2 ym mis Ebrill 2023. Mae cam 2 yn canolbwyntio ar ddarparu elfen gofal plant Dechrau'n Deg i fwy o blant dwy oed gan weithio gyda'n partneriaid yn yr awdurdod lleol a'r sector gofal plant i gynnig darpariaeth o'r ansawdd uchaf. Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, mae data gan awdurdodau lleol yn dangos bod dros 6,900 o leoedd gofal ychwanegol i blant 2 oed wedi cael eu cynnig i rieni yng Nghymru fel rhan o gam 2, ac mae dros 1,000 o blant wedi manteisio ar leoedd gofal plant Dechrau'n Deg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 19* | Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw. | Dechrau'n Deg yw rhaglen blynyddoedd cynnar flaenllaw Llywodraeth Cymru. Mae'n parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi plant i gael y dechrau gorau i'w bywydau drwy ddarparu pedair elfen allweddol: gofal plant o ansawdd uchel; cymorth i fagu plant; cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd; a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Yn 22/23, y flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch cyflawni'r rhaglen, rhoddodd rhaglen Dechrau'n Deg gymorth i dros 35,400 o blant. Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i hadnewyddu o'r *Canllawiau Gofal Plant Dechrau'n Deg* yn dilyn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol sy'n rhanddeiliaid a chynrychiolwyr y sector gofal plant yng Nghymru. |
| 20 | Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal. | Rydym wedi ymrwymo o hyd i eiriolaeth rhieni ac mae darparwyr eiriolaeth wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran recriwtio a hyfforddi staff, datblygu deunyddiau hyrwyddo, datblygu fframwaith canlyniadau a sefydlu llwybrau atgyfeirio a darpariaeth ar draws pob rhan o Gymru. Rhoddwyd cymorth i tua 200 o rieni ar gyfer materion amrywiol gan gynnwys iechyd meddwl, cymorth gydag achosion gofal, cynadleddau amddiffyn plant, tai ac iechyd corfforol. Mae hyn wedi rhoi gwell dealltwriaeth i rieni o'r prosesau y maent yn ymwneud â nhw a gwell ymwybyddiaeth o'u hawliau fel rhieni. Mae hyn wedi golygu bod rhieni mewn gwell sefyllfa i eirioli dros eu hunain mewn cyfarfodydd, teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cymryd o ddifrif a chael gwell dealltwriaeth o sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a phwy sy'n eu gwneud. |
| 21 | Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal. | Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i fodel gofal 'Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal' gan roi cyllid gwerth dros £18m yn 23/24. Mae hyn wedi cefnogi 20 prosiect gan gynnwys gwasanaeth Fy Nhîm Cymorth (MyST) yng Ngwent sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant a phobl ifanc hyd at 21 oed sy'n derbyn gofal neu'n ymwneud â gofal cymdeithasol plant ac sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth sy'n deillio o drawma cynnar a thrawma cymhleth. Mae'r rhaglen Gwasanaeth Cymorth Sefydlogrwydd Amlasiantaethol (MAPPS), yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn darparu 12 sesiwn therapi i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan ddadansoddwyr ymddygiad ardystiedig sy'n gallu gweithio gyda nhw i reoli eu hemosiynau, eu hymddygiad, darparu gwaith stori bywyd a meithrin perthnasoedd; i helpu i sefydlogi lleoliadau mewn cartrefi preswyl neu gyda gofalwyr maeth. Yn 23/24, cefnogwyd dros 14,000 o deuluoedd a phlant a phobl ifanc gan wasanaethau a ariannwyd gan y Gronfa, a chaniataodd hyn i 1,400 o blant aros yn ddiogel gyda'u rhieni neu eu teuluoedd ehangach. |
| 22 | Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal. | Cynhaliwyd yr ail Uwchgynhadledd Profiad o Ofal yn Llandudno ym mis Hydref 2023. Ym mis Mawrth 2024, soniodd Gweinidogion am gynnydd tuag at weledigaeth Datganiad yr Uwchgynhadledd Diwygio Radical i bobl ifanc mewn trydedd Uwchgynhadledd yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd lansiad swyddogol y *Siarter Rhianta Corfforaethol* ym mis Medi 2023 ac mae gwaith wedi'i wneud i hyrwyddo cofrestriadau, gyda 40 o sefydliadau wedi cofrestru hyd yma. Ym mis Ionawr 2024, rhannwyd drafft o'r Fframwaith Ymarfer Amlasiantaeth Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Gwasanaethau Plant â rhanddeiliaid a phartneriaid i gael eu sylwadau. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar sail yr adborth a gafwyd. Mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid wedi parhau i gyfarfod ac wedi sefydlu dwy ffrwd waith: y gyntaf yn canolbwyntio ar ddata a metrigau a'r ail yn canolbwyntio ar gymorth cynnar ac atal. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 23* | Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. | Rydym wedi parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar yr ymrwymiad hwn drwy'r Bwrdd Rhaglen Dileu Elw. Cyflwynwyd Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'r Senedd ym mis Mai 2024, yn dilyn ymgynghoriad a gyfrannodd at ddatblygu'r darpariaethau i gyfyngu ar wneud elw preifat. Defnyddiwyd ein buddsoddiad o £68m mewn cyllid refeniw dros dair blynedd i awdurdodau lleol i ddatblygu capasiti, recriwtio a sgiliau'r gweithlu. Mae hyn wedi cynnwys cymorth gwell i ofalwyr maeth, gwella'r ystod o ddewisiadau gofal maeth i blant, datblygu darpariaeth gofal preswyl mewnol a chynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd. |
| 24 | Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. | Yn 2023, adolygwyd y ddarpariaeth ranbarthol a sefydlu fframwaith monitro cadarn i gofnodi datblygiadau. Mae gwasanaethau preswyl rhanbarthol yn derbyn cyllid drwy amrywiaeth o ffrydiau cyllido. Drwy'r fframwaith, rydym yn monitro'r defnydd o'r cyllid a'r cynnydd ym mhob rhanbarth sy'n ein galluogi i gael gwell trosolwg o'n buddsoddiad a chapasiti awdurdodau lleol i gynllunio a gweithio ar y cyd ac yn strategol. Yn 23/24, cefnogwyd 249 o blant a phobl ifanc mewn gwasanaeth preswyl ar gyfer anghenion cymhleth. Yn ystod yr un cyfnod, llwyddodd 58 o blant a phobl ifanc i ddychwelyd yn ddiogel at eu teuluoedd neu i leoliad sefydlog ar ôl cael cymorth. Erbyn diwedd 2023, roedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi dyrannu £25.4m o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Tai â Gofal i ddarparu cynlluniau llety preswyl i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Arferion Da er mwyn datblygu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Bydd yn allweddol i rannu arferion da a hysbysu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac awdurdodau lleol am yr heriau a wynebwyd er mwyn llywio gwaith cynllunio a strategaethau comisiynu lleoliadau yn y dyfodol. |
| 25 | Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'. | Ym mis Medi 2023, cafwyd lansiad cyhoeddus swyddogol y *Siarter Rhianta Corfforaethol* ar gyfer cofrestriadau gwirfoddol ac rydym wedi canolbwyntio ar ymgysylltu i hyrwyddo'r Siarter. Mae 40 o 'rieni corfforaethol' newydd wedi'u cofrestru, gan weithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael yr un cyfleoedd a phrofiadau bywyd â phob plentyn a pherson ifanc arall yng Nghymru. Drwy weithio i gryfhau rôl cyrff cyhoeddus fel 'rhieni corfforaethol', rydym wedi gweld diddordeb ehangach gan fudiadau ar wahân i awdurdodau lleol mewn ymrwymo i'r egwyddorion, fel sefydliadau iechyd, addysg, tai a'r trydydd sector. Mae'r Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol wedi parhau i gyfarfod yn ystod 23/24. Mae'r Grŵp wedi datblygu dau becyn cymorth – un ar gyfer 'rhieni corfforaethol' newydd gan gynnwys gwybodaeth am addewidion a'r llall yn darparu gwybodaeth am beth yw rhianta corfforaethol ac enghreifftiau o gamau y gellir eu cymryd gan riant corfforaethol sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar gynnwys pennod newydd bwrpasol ar rianta corfforaethol i'w chynnwys fel rhan o ddiweddariad ehangach o God Ymarfer Rhan 6 ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y Siarter yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar sut i gryfhau'r dull strategol o rianta corfforaethol. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol** | | |
| 26 | Cyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc, gan roi i bawb o dan 25 oed y cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth. | Mae'r *Adroddiad Blynyddol Cyfres cenhedlaeth Z y Warant i Bobl Ifanc* (2023), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd pendant o ran cyflawni'r ymrwymiad hwn, gyda dros 30,000 o bobl ifanc yn dechrau ar raglenni cyflogadwyedd a sgiliau yn unig ers lansio'r Warant. Mae dros 5,000 o bobl ifanc wedi mynd yn eu blaen i gyflogaeth; mae dros 400 wedi dechrau eu busnes eu hunain ac mae dros 14,715 wedi dechrau prentisiaethau. Cafodd camau 2 a 3 y Sgwrs Genedlaethol â phobl ifanc hefyd eu cwblhau a chyhoeddwyd adroddiad llawn ym mis Mawrth 2024, ochr yn ochr â'n diweddariad ar gyfer cyfranogwyr, sy'n nodi sut rydym wedi gwrando ar bobl ifanc ac wedi ymateb i'w hadborth. |
| 27 | Creu 125,000 o brentisiaethau pob oed. | Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod bron i 51,000 o brentisiaethau wedi dechrau erbyn diwedd mis Hydref 2023. Bydd prentisiaethau'n parhau i fynd i'r afael â phrinder sgiliau a bylchau mewn sectorau blaenoriaeth sy'n hanfodol i sbarduno cynhyrchiant a thwf economaidd, fel cefnogi ein huchelgeisiau sero net, yr economi sylfaenol bob dydd a gwasanaethau cyhoeddus. Ein nod yw o leiaf cynnal nifer y cyfleoedd i ddechrau prentisiaethau a dargedwyd yn ystod y Senedd flaenorol. Bydd y gwaith o gyflawni'n cael ei gefnogi gan ein *Prentisiaethau: datganiad polisi,* a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024, sy'n darparu fframwaith strategol ar gyfer dyfodol y rhaglen brentisiaethau, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau y mae unigolion a chyflogwyr yn eu hwynebu oherwydd effaith y pandemig, yr argyfwng costau byw a newidiadau economaidd. |
| 28 | Rhoi sail ddeddfwriaethol i'r bartneriaeth gymdeithasol drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). | Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn gyfraith ym mis Mai 2023. Sefydlwyd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol ar 1 Chwefror 2024 a daeth y dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol i rym ar 1 Ebrill 2024. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau felly. |
| 29 | Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio. | Mae'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl wedi ymgysylltu â chyflogwyr ac undebau llafur i hyrwyddo'r gwaith o recriwtio a chadw pobl anabl; wedi gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Busnes Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau; ac wedi codi ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau a gweminarau i rwydweithiau partneriaeth gymdeithasol a rhwydweithiau rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a'r Fforwm Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle. Mae'r adroddiad *Llesiant Cymru: 2023* diweddaraf yn dangos bod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl wedi aros yn gymharol sefydlog ond mae dal ar ei hôl hi o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, tra bod y gwahaniaeth cyflog ar sail anabledd yn 9.7%, 1.7 pwynt canran yn llai na'r flwyddyn flaenorol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 30 | Cryfhau ein Contract Economaidd. | Mae cyflwyno Contract Economaidd cryfach, a ddechreuwyd ddechrau 2022, wedi parhau i feysydd busnes newydd, gan gynnwys Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi – gan sicrhau bod cynaliadwyedd busnesau, gwaith teg, llesiant ac economi carbon isel yn ganolog i'n cymorth i fusnesau yng Nghymru. Mae gwerthusiad allanol o effaith, canlyniadau a dylanwad y Contract Economaidd yn mynd rhagddo, ac adroddwyd ar rai canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg ym mis Ebrill 2024. Ers mis Ionawr 2022, rhoddwyd tua 500 o Gontractau Economaidd i fusnesau ledled Cymru, ac mae llawer mwy wedi'u halinio ag egwyddorion y Contract Economaidd. Bydd y camau nesaf yn cael eu harwain gan yr argymhellion llawnach a wneir yn y gwerthusiad terfynol a fydd yn cael ei gynnal ddechrau 2025. |
| 31 | Cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau undeb ddod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle. | Integreiddiwyd gweithrediad a datblygiad y rhwydwaith Cynrychiolwyr Gwyrdd yn llawn i waith TUC Cymru, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Mae'r gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt yn cynnwys codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth ymysg Cynrychiolwyr Gwyrdd newydd a phresennol. |
| 32 | Cefnogi'r gwaith o greu Banc Cymunedol i Gymru. | Mae ein gweledigaeth ar gyfer banc cymunedol i Gymru yn seiliedig ar fodel cydfuddiannol, sy'n eiddo i'w aelodau ac yn cael ei redeg er eu budd. Nid oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau i weithredu banc cymunedol ei hun, felly bydd yn rhaid i weithredwr masnachol arwain y prosiect hwn a bod yn berchen arno. Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n cyflwyno cynlluniau banc cymunedol ddangos i fuddsoddwyr (a allai gynnwys Llywodraeth Cymru) a rheoleiddwyr y diwydiant bod y cynlluniau hynny'n gynaliadwy'n fasnachol ac yn gadarn yn weithredol. Rhwng 2021 a 2023, datblygodd cymdeithas adeiladu yng Nghymru gynlluniau ar gyfer banc cymunedol gyda chefnogaeth Cambria Cydfuddiannol Cyf. Buddsoddodd y Gymdeithas adnoddau sylweddol i ddatblygu eu cysyniad ond yn ystod haf 2023 dyfarnodd Bwrdd y Gymdeithas nad oedd amodau newidiol y farchnad yn ffafriol mwyach i gefnogi lansio brand ac ystod o gynhyrchion newydd. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i hyrwyddo'r cysyniad o fanc cymunedol. Rhoddwyd rhagor o gymorth i Cambria Cydfuddiannol Cyf, sy'n eu galluogi i ganfod a gweithio gyda pherchennog prosiect newydd posibl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan annog deialog a chamau gweithredu i gefnogi mynediad at wasanaethau cyllid a bancio mewn cymunedau yng Nghymru. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 33 | Datblygu Her Morlyn Llanw a chefnogi syniadau a all wneud Cymru'n ganolfan fyd-eang i dechnolegau llanw sy'n dod i'r amlwg. | Cyhoeddwyd tri enillydd yr Her Môr-lynnoedd Llanw ym mis Mawrth 2024. Mae'r tri phrosiect ymchwil, a fydd yn cymryd dwy flynedd i'w cwblhau, bellach yn mynd rhagddynt a byddant yn adrodd yn rheolaidd inni. Rydym yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiect ynni ffrwd lanw Morlais Menter Môn ar Ynys Môn. Dyma gam sylfaenol i gefnogi diwydiant ffrwd lanw newydd Cymru. Rydym hefyd wedi darparu £1m o gyllid cyfatebol i Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau er mwyn dechrau'r broses o gryfhau seilwaith porthladdoedd fel y gall Cymru fanteisio i'r eithaf ar effaith economaidd gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd. |
| 34 | Galluogi canol ein trefi i fod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio'n gydweithredol, cynyddu eu darpariaeth ddigidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol. | Ers mis Ebrill 2023, mae Menter Môn wedi cyflawni cam diweddaraf y Rhaglen Trefi Smart. Hyd at fis Mai 2024, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu â 133 o drefi i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth. Cynhaliwyd Cynhadledd Trefi Smart ym mis Mawrth 2024 gan dynnu sylw at waith y rhaglen a chynyddu ei phroffil. Darparodd Busnes Cymru gymorth busnes digidol penodol gan gynnwys gwybodaeth, cyrsiau hyfforddi, canllawiau a chwiliwr digwyddiadau. Ers mis Chwefror 2024, mae wedi darparu 21 o weminarau cymorth digidol i 99 o bobl, a oedd yn rhoi'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar fusnesau i ddatblygu a gwella eu presenoldeb digidol ar-lein er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy a chydnerth. Yn 23/24, cefnogwyd 31 o ddigwyddiadau cadwyn gyflenwi, gyda 901 o gyflenwyr yn bresennol, a helpodd hyn fusnesau i ennill contractau newydd, gan gefnogi twf busnes. Cododd y digwyddiadau hyn hefyd ymwybyddiaeth o werth cymdeithasol a'i bwysigrwydd mewn prosesau caffael a phwysleisiwyd pwysigrwydd cadw masnach yn lleol ac o fewn economi Cymru. Mae busnesau canol trefi yn parhau i gael eu cefnogi i gydweithredu â'i gilydd i gyflwyno gwelliannau i'w hardaloedd, gan greu lleoliadau bywiog lle gall busnes ffynnu. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth a ddarparwyd i sefydlu Ardal Gwella Busnes newydd yn Wrecsam yn 23/24. Gwnaethom hefyd gomisiynu 'adolygiad o fodelau busnes a chymunedol cydweithredol mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru', a fydd yn llywio'r defnydd gorau o gyllid refeniw i gefnogi grwpiau cydweithredol canol trefi. |
| 35 | Ceisio targed o 30% ar gyfer gweithio o bell. | Ein targed yw bod 30% o'r gweithlu'n gweithio o bell yn rheolaidd. Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn monitro hyn fel rhan o fframwaith ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn *Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*. Yn ôl data Arolwg Cenedlaethol Cymru 22/23, rhagorwyd ar y targed gyda 34% o'r gweithlu'n gweithio o bell fel arfer. Mae ein strategaeth *Gweithio'n Ddoethach, strategaeth gweithio o bell i Gymru*, yn rhoi pwyslais ar hyblygrwydd a dewis, gyda'r angen i ystyried gweithwyr unigol yn ogystal ag anghenion sefydliadol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl** | | |
| 36 | Lansio Cynllun 10 mlynedd newydd Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer economi ddi-garbon. | Cyhoeddwyd ein *Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* ym mis Rhagfyr 2021, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Mae'r Strategaeth yn gosod fframwaith ar gyfer buddsoddiadau seilwaith trawslywodraethol gydag ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Drwy ddefnyddio'r fframwaith sydd wedi'i nodi yn y Strategaeth, gallwn wella'r gwerth sy'n deillio o'n buddsoddiadau mewn seilwaith er mwyn cyflawni amcanion trawsbynciol a sicrhau nifer o fanteision. Drwy wneud hynny, gallwn ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau, dros y tymor hir, a helpu busnesau i dyfu. Cyhoeddwyd *Strategaeth buddsoddi yn seilwaith Cymru: diweddariad ar y llif prosiectau* ochr yn ochr â'n *Cyllideb Derfynol ar gyfer 2024-2025* ym mis Chwefror 2024. |
| 37 | Darparu'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ac uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu. | Mae'r gwaith o gyflawni'r *Strategaeth Ddigidol i Gymru* yn parhau. Bu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn gweithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi prosiectau allweddol, gan gynnwys digideiddio cofnodion mamolaeth; moderneiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat; a deall heriau o fewn y gwasanaeth cynllunio. Aeth y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig yn fyw ym mis Tachwedd 2023, gyda phresgripsiynau yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo'n ddigidol rhwng y feddygfa a'r fferyllfa. Cynhaliodd y Ganolfan ymchwil i ddeall pa mor barod oedd y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio a pha gymorth y gallai ei gynnig i sector cyhoeddus Cymru i wireddu potensial deallusrwydd artiffisial mewn ffordd ddiogel a moesegol. Cyhoeddwyd y *Cynllun Gweithredu Seiber i Gymru* ym mis Mai 2023, sy'n amlinellu sut y byddwn yn defnyddio seibergadernid, sgiliau ac arloesi i gefnogi busnesau a gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd ym mis Mai, lansiwyd yr Hyb Arloesedd Seiber i drawsnewid De Cymru i fod yn glwstwr seiberddiogelwch blaenllaw erbyn 2030, gan ddod â manteision economaidd a denu swyddi gwerth uchel. Cyhoeddwyd ail gam yr ymchwil ar y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ym mis Tachwedd 2023 ac mae hynny wedi ein helpu i ddeall safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid ynghylch allgáu digidol. I archwilio hyn ymhellach, sefydlwyd prosiect peilot ym mis Mawrth 2024 gyda'r nod o helpu preswylwyr tai cymdeithasol i fynd ar-lein. O ran cysylltedd, roedd ein prosiect gwerth £56m i gyflwyno band eang ffeibr llawn yn darparu band eang cyflym iawn i 44,000 eiddo. Parhaodd JIGSO, ein llwyfan data, i helpu'r gwasanaethau brys i ymateb i ddigwyddiadau mawr. |
| 38 | Creu sylfaen ddeddfwriaethol fodern ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. | Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith ar ddeddfwriaeth diwygio bysiau i gynyddu rheolaeth gyhoeddus dros rwydwaith bysiau Cymru. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddwyd *Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau* sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni hyn ar lawr gwlad, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y diwydiant bysiau, y trydydd sector ac Undebau Llafur. Bydd y model masnachfreinio yn golygu mai er budd pobl Cymru y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am wasanaethau bysiau tra'n diwallu anghenion a gwahaniaethau lleol a rhanbarthol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 39 | Codi'r gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu cwmnïau bysiau trefol newydd. | Teithiau bws yw tri chwarter y siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, ond er mwyn gwella'r rhwydwaith bysiau mae angen rhoi terfyn ar ddadreoleiddio'r sector bysiau. Rydym yn paratoi deddfwriaeth diwygio bysiau a fydd, yn ogystal â chynyddu rheolaeth gyhoeddus dros wasanaethau bysiau yng Nghymru, yn codi'r gwaharddiad ar gwmnïau bysiau trefol newydd. Bydd hyn yn ein galluogi i wella cystadleuaeth ac atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer y rhwydwaith bysiau yng Nghymru. |
| 40 | Deddfu i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau preifat a mynd i'r afael â phroblemau croesffiniol. | Rydym wedi ymgynghori ar gynigion i foderneiddio trefniadau trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Medi. Byddwn yn ymgynghori ar Fil drafft yn nes ymlaen yn ystod tymor presennol y Senedd, yn ogystal â bwrw ymlaen â diwygiadau drwy ddulliau anneddfwriaethol, drwy barhau i weithio gyda theithwyr, masnachwyr a'r awdurdodau trwyddedu i sicrhau sector tacsis a cherbydau hurio preifat mwy diogel a theg. Bydd hyn yn cynnwys diweddaru canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau trwyddedu a gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno hyfforddiant safonol ar gyfer gyrwyr tacsis a gyrwyr cerbydau hurio preifat. |
| 41 | Rhoi ein Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru ar waith. | Rydym yn gwneud cynnydd o ran rhoi *Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*, ar waith, gan weithio mewn partneriaeth â TrC, awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddwyd Canllawiau Gwerthuso Technegol (WelTAG) diwygiedig ar gyfer gweithwyr trafnidiaeth proffesiynol i sicrhau bod cynlluniau yng Nghymru yn cael eu harfarnu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â *Llwybr Newydd*. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddwyd y *Cynllun cyflawni teithio llesol newydd 2024 i 2027* hefyd, sy'n nodi sut y bydd ymrwymiadau teithio llesol yn *Llwybr Newydd* yn cael eu cyflawni. Dechreuodd y gwaith o wreiddio ein hymateb i'r Adolygiad Ffyrdd drwy ein gwaith, ac mae achos dros newid llawer o gynlluniau (Cam 0 WelTAG) yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r Canllawiau Gwerthuso Technegol diwygiedig. Yn sgil buddsoddiad gwerth £800m mewn cerbydau newydd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd, mae ansawdd y ddarpariaeth rheilffyrdd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau TrC wedi gwella. Mae paratoadau'n mynd rhagddynt hefyd ar gyfer y ddeddfwriaeth diwygio bysiau sydd ar y gweill a fydd yn golygu newid unwaith mewn cenhedlaeth i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu. |
| 42 | Adeiladu ar lwyddiant ein cynllun teithio am ddim i bobl hŷn ac edrych ar sut y gall prisiau teg annog teithio integredig. | Wrth inni gymryd mwy o reolaeth gyhoeddus dros y rhwydwaith bysiau drwy ddeddfwriaeth, rydym yn ystyried beth fydd ein cynnig o ran prisiau a sut y gallwn ni integreiddio hynny â gwasanaethau rheilffyrdd TrC. Rydym yn parhau i ariannu'r cynllun Pris Siwrnai Consesiynol Gorfodol sy'n cynnig teithio am ddim ar fysiau i bobl hŷn a phobl ag anableddau penodol; yn ogystal â Fy Ngherdyn Teithio sy'n cynnig teithiau am bris gostyngol ar fysiau i bobl ifanc. |
| 43 | Gweithio tuag at ein targed newydd o 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, gan bennu nodau mwy ymestynnol lle bo hynny'n bosibl. | Mae'r gwaith llwyddiannus sy'n dal i fynd rhagddo i gyflwyno ein buddsoddiad gwerth £800m mewn cerbydau newydd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd, cyflwyno Metro De Cymru, ein deddfwriaeth diwygio bysiau sydd ar y gweill, ein cefnogaeth i atebion arloesol fel clybiau ceir yng nghefn gwlad Cymru, a chyhoeddi ein *Cynllun cyflawni teithio llesol 2024 i 2027* i gyd yn helpu mwy o bobl i wneud siwrneiau gan ddefnyddio dulliau mwy cynaliadwy. Dyfarnwyd cyllid gwerth dros £100m i awdurdodau lleol a TrC yn 23/24 ar gyfer prosiectau i helpu i gyflawni *Llwybr Newydd*. Mae gwaith yn parhau ar *Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru*, a fydd yn darparu data ar ganran bresennol y teithiau sydd drwy ddulliau teithio cynaliadwy. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 44 | **Bwrw ymlaen ag adroddiad Comisiwn Burns ar gyfer Casnewydd.** | Mae Uned Gyflawni TrC yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. O ran y gwelliannau i 'asgwrn cefn' Prif Linell De Cymru, mae Uned TrC yn cynnal yr astudiaethau sydd eu hangen i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac rydym yn gweithio gyda Network Rail ac Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU i'w datblygu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar y pum 'gorsaf Burns' arfaethedig, datblygiadau a gynhelir gan TrC, sydd bellach yn cyfrannu at y cynlluniau datblygu. Bydd y gwaith dylunio a datblygu a wnaed gan TrC hyd yma yn cyfrannu at Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru y mae dyletswydd ar ei Gyd-bwyllgor Corfforedig i'w ddatblygu. |
| 45 | **Datblygu cronfa prif ffyrdd newydd i wella atyniad a bioamrywiaeth ardaloedd wrth ymyl prif lwybrau trafnidiaeth Cymru.** | Ym mis Hydref 2023, cyhoeddwyd *Llwybr Newydd i Natur – y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol*. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwaith yn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn cyflawni mesurau gwella cadarnhaol. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i wella sut rydym yn darparu manteision i fyd natur o ran rheoli, gweithredu a gwella ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun, rydym yn datblygu cronfa benodol ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Bydd hyn yn golygu bod modd cynnal amrywiaeth eang o brosiectau adfer natur ar draws ein Rhwydwaith presennol, gan adfer, gwella a darparu cynefinoedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt. Bydd hyn yn ychwanegol at y mesurau gwella bioamrywiaeth y byddwn yn eu cyflawni fel rhan o'n gwaith i wella seilwaith ffyrdd ar ein Rhwydwaith. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i adfer natur yng Nghymru, yn y dyfodol bydd pob cynllun ffyrdd newydd a phrosiectau gwella seilwaith yn arwain at welliannau bioamrywiaeth ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r mesurau lliniaru amgylcheddol y mae'n rhaid inni eu gwneud. |
| 46* | **Creu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio, gan werthfawrogi anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy.** | Rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) ym mis Awst 2023 a oedd yn sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol. Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r cynllun arfaethedig yn cydnabod bod gan ffermwyr ran hollbwysig yn y gwaith o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a mynd i'r afael â materion pwysig fel yr argyfwng hinsawdd a natur. I gyd-fynd â'r ymgynghoriad, cynhaliwyd 10 sioe deithiol gyda dros 3000 o ffermwyr yn bresennol. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ym mis Mawrth 2024 gydag oddeutu 12,000 o ymatebion wedi dod i law, sydd wrthi'n cael eu dadansoddi. |
| 47* | **Cyflwyno cyfnod pontio i'r cynllun cymorth ffermio newydd, gan gynnwys parhau â thaliadau sefydlogrwydd, y tu hwnt i dymor y Senedd bresennol.** | Roedd cyfnod pontio yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023. Roeddem yn cynnig ein bod yn cyflwyno tair prif haen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy mewn camau clir rhwng 2025 a 2029, ochr yn ochr â Thaliadau Sefydlogrwydd a fwriedir i gefnogi'r rheini sy'n symud o'r Cynllun Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ym mis Mai 2024, cyhoeddwyd ein bwriad i gyflwyno'r cyfnod pontio o 2026 ac rydym yn ystyried dyluniad y cynllun sy'n cynnwys y taliadau sefydlogrwydd arfaethedig. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn** | | |
| 48* | Comisiynu cyngor annibynnol a fydd yn ymchwilio i lwybrau posibl tuag at sero net erbyn 2035. | Mae'r Grŵp Her Sero Net 2035 annibynnol yn cynnwys arbenigwyr dethol o'r byd academaidd a sefydliadau cyhoeddus a phreifat, gydag arbenigedd o bob sector allweddol yn ein heconomi. Mae wedi canolbwyntio ei waith ar bum Her: sut gallai Cymru fwydo ei hun erbyn 2035; sut gallai Cymru ddiwallu anghenion ynni erbyn 2035 wrth roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio tanwyddau ffosil; sut gallai Cymru wresogi ac adeiladu cartrefi a gweithleoedd erbyn 2035; sut gallai pobl a lleoedd gael eu cysylltu ledled Cymru erbyn 2035; sut gallai addysg, swyddi a gwaith edrych ledled Cymru erbyn 2035; a nodi materion a chyfleoedd trawsbynciol. Mae allbynnau'r Grŵp ar gael ar wefan benodol www.netzero2035.wales. |
| 49* | Mynd ar drywydd datganoli'r pwerau sydd eu hangen i'n helpu i gyrraedd sero net, gan gynnwys rheoli Ystad y Goron yng Nghymru. | Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn glir bod angen pwerau ychwanegol ar Gymru i weithredu'r polisïau sydd eu hangen i gyrraedd sero net ac i wneud hynny mewn ffordd sy'n cefnogi pontio teg. Credwn y byddai datganoli Ystad y Goron, yn unol â datganoli i Lywodraeth yr Alban, yn rhoi mwy o hyblygrwydd inni wrth ddewis pa mor bell a chyflym rydym yn defnyddio ynni adnewyddadwy a sut rydym yn cydbwyso'r argyfwng hinsawdd a natur. Rydym yn croesawu argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru y dylid datganoli Ystad y Goron ac y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp arbenigol i ystyried y setliad datganoli mewn perthynas ag ynni. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU i roi'r argymhellion hynny ar waith. |
| 50* | Gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth. | Bydd y Bil arfaethedig, sydd i fod i gael ei gyflwyno i'r Senedd yn 2025, yn gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, yn sefydlu corff llywodraethu newydd i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus Cymru yn goruchwylio cyfraith amgylcheddol yn gadarn, yn ogystal â chyflwyno fframwaith adfer natur strategol, a fydd yn cynnwys targedau bioamrywiaeth. Gan adeiladu ar waith polisi ac ymgysylltu blaenorol, ym mis Ionawr 2024 cyhoeddwyd ymgynghoriad Papur Gwyn ac rydym wrthi'n datblygu polisi ar gyfer y Bil sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r ymgynghoriad. Mae'r Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd yn parhau i oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac mae wedi cael 36 o gyflwyniadau hyd yma. |
| 51 | Deddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel. | Dechreuodd cam cyntaf Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (y Ddeddf) ar 30 Hydref 2023, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn, gyda gwaharddiad neu gyfyngiadau ar wyth o gynhyrchion plastig untro yng Nghymru. Y cynhyrchion hyn yw platiau, cytleri, troyddion diodydd, gwellt (gan gynnwys gwellt sy'n sownd i'r pecyn), cwpanau a chynwysyddion cludfwyd polystyren allwthiedig ehangedig neu ewynedig, ffyn cotwm â choes blastig a ffyn balŵnau. Er mwyn helpu busnesau a sefydliadau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon, cyhoeddwyd canllawiau statudol. Gwnaed ymrwymiad i gyflwyno gwaharddiad ar y tri chynnyrch sy'n weddill (caeadau polystyren ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion cludfwyd, cynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy a bagiau siopa plastig untro) erbyn mis Mawrth 2026. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â thair gwlad arall y DU, gynigion i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig a fêps defnydd untro. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 52 | Cyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr i gymell busnesau i leihau gwastraff. | Bu cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r rhaglen waith ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr i gymell lleihau gwastraff, gwneud cyfraniad hollbwysig at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a helpu i greu economi gryfach a gwyrddach. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gwblhau'r rheoliadau i gyflwyno'r cynllun ar gyfer deunydd pecynnu, yn dilyn ymgynghoriad helaeth ar ei ddyluniad a'i weithrediad manwl, a gweithredu gofynion newydd ar fusnesau mwy i roi gwybod faint o ddeunydd pecynnu maent yn ei roi ar y farchnad i gyfrifo'r rhwymedigaethau ariannol y bydd busnesau'n eu hwynebu. Ar ben hynny, o ran y Cynllun Dychwelyd Ernes, datblygwyd a chytunwyd ar drefniadau rhyngweithredu ledled y DU ar gyfer y cynlluniau ar gyfer cynwysyddion diodydd ym mhob gwlad sy'n ategu'r cyfrifoldeb estynedig dros drefniadau pecynnu. Cwblhawyd galwad am dystiolaeth ym mis Mawrth 2024 ar y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer nwyddau electronig a thrydanol ac mae gwaith yn parhau ar y gwasanaeth olrhain gwastraff digidol ledled y DU, a fydd yn cefnogi'r cynlluniau ac yn cofnodi symudiadau gwastraff mwy neu lai mewn amser real er mwyn lleihau'r posibilrwydd o weithgarwch troseddol a helpu i sicrhau bod adnoddau'n cynnig y gwerth mwyaf posibl. Ar ben hynny, ym mis Ebrill 2024 rhoddwyd rheoliadau newydd Ailgylchu yn y Gweithle ar waith sy'n cyd-fynd â'r dull gweithredu llwyddiannus ar gyfer aelwydydd yng Nghymru. |
| 53 | Creu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r Gogledd i'r De. | Ym mis Mehefin 2023, lansiodd y cyn Brif Weinidog Gynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru i alluogi coetiroedd nad ydynt yn rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru i ymuno â'r Goedwig Genedlaethol. Rydym yn parhau i ariannu 6 Swyddog Cyswllt Coedwig Genedlaethol sy'n gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddarparu cyngor ar lawr gwlad ar nodau a manteision y Goedwig Genedlaethol a sut y gall coetiroedd wneud cais i ymuno. Ym mis Tachwedd 2023, daeth y 15 safle coetir cyntaf, nad ydynt yn rhan o ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol. Ceir proses ymgeisio dreigl ac ymunodd 13 safle arall yn ystod hanner cyntaf 2024. Mae'r Goedwig Genedlaethol bellach yn cynnwys 26 o flociau o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys dros 70 o goetiroedd unigol a 28 o safleoedd unigol nad ydynt yn rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru sy'n eiddo i dirfeddianwyr preifat, elusennau, awdurdodau lleol a sefydliadau. O ganlyniad, mae dros 100 o goetiroedd unigol amrywiol bellach yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol, sy'n amrywio yn eu maint o 1 hectar i dros 1,000 hectar ac yn cynnwys rhai sy'n amrywio o goetiroedd cymunedol elusennol bach i goedwigoedd cynhyrchiol mawr. Cyfanswm maint y Goedwig Genedlaethol ar hyn o bryd yw 67,699 hectar. |
| 54 | Manteisio ar botensial economaidd, diwylliannol a hamdden y Goedwig Genedlaethol gan adeiladu ar ein cynnydd tuag at greu diwydiant coed cynaliadwy. | Fel rhan o brosiect Cartrefi o Bren Lleol 2 a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae Woodknowledge Wales yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a sefydlu'r Goedwig Genedlaethol, gan ddarparu arbenigedd a datblygu ffyrdd y gall y Goedwig Genedlaethol gyflenwi pren adeiladu o ansawdd uchel, gan ddarparu manteision hamdden ac iechyd ar yr un pryd. Mae Woodknowledge Wales wedi datblygu cyfres o astudiaethau achos, gan gynnwys un sy'n tynnu sylw at ddull amgen CNC o werthu pren, gan fynd â phren o goedwig hysbys i brosesydd hysbys ac yn ei flaen i brosiect hysbys. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio er mwyn cyfnewid gwybodaeth, i rannu arferion gorau gyda rhanddeiliaid a bydd yn cael ei ddefnyddio wrth lunio'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren. Mae astudiaethau achos ar y Goedwig Genedlaethol yn cael eu datblygu i dynnu sylw at amrywiaeth safleoedd y Goedwig Genedlaethol, gan gynnwys un sy'n canolbwyntio ar fanteision coedwigaeth gynhyrchiol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 55* | Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru. | Mae gwaith wedi'i wneud i nodi materion, deall y cyd-destun ehangach, a llunio polisi. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys dau arolwg bwyd cymunedol, arolwg defnyddwyr a ddenodd 1,018 o ymatebwyr ac arolwg rhanddeiliaid yr ymatebodd 87 o ymarferwyr iddo. Gwnaethom gyhoeddi 10 astudiaeth achos o bob rhan o'r DU ac Iwerddon a datblygu map systemau o fwyd cymunedol yng Nghymru ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd. I archwilio'r mapiau systemau hyn, cyfarfu'r grŵp ffocws hydredol rhanddeiliaid bwyd cymunedol a'r naw grŵp rhanddeiliaid ehangach â thros 80 o bobl. Roedd rhagor o ymgysylltu'n cynnwys ymweliadau safle â thyfwyr a chynhyrchwyr bwyd cymunedol. |
| 56 | Sicrhau diogelwch tomenni glo drwy gyflwyno deddfwriaeth i ddelio â gwaddol canrifoedd o fwyngloddio, gan gryfhau pwerau'r awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu diogelu. | Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod pobl sy'n byw ac yn gweithio ger tomenni glo yn teimlo'n ddiogel drwy leihau'r tebygolrwydd o ragor o dirlithriadau. Gwnaed cynnydd sylweddol ar brif amcan ein gwaith ar Ddiogelwch Tomenni Glo i fynd i'r afael â'r bwlch mewn gwybodaeth am domenni glo segur. Ym mis Tachwedd 2023, gwnaethom gyhoeddi data sy'n ymwneud â lleoliad tomenni categori C a D (y rheini y mae angen eu harchwilio'n aml). Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddwyd y mapiau lleoliad ar gyfer tomenni categori A, B ac R, sydd fel arfer yn llai eu maint. Mae dros 2,500 o domenni glo segur yng Nghymru, ac mae'n bwysig bod yn dryloyw ynghylch eu lleoliadau. Dros y gaeaf, cwblhawyd y rhaglen arolygu ar domenni categori C a D ac ni nodwyd unrhyw faterion o bwys. Yn 2023, dechreuodd yr Awdurdod Glo gynnal arolygon ar domenni categori B ac erbyn mis Mawrth 2024 roedd wedi cynnal arolygon ar tua 220, ac mae'r gwaith arolygu'n parhau. Mae gwaith ar ddeddfwriaeth fodern newydd yn parhau, a bydd hyn yn darparu'r fframwaith angenrheidiol ar gyfer trefn reoleiddio hirdymor sy'n addas i'r diben ar gyfer diogelwch tomenni segur, a sefydlu corff cyhoeddus newydd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar y gwaith hwn. |
| 57 | Cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, yn gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ac ehangu'r ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer. | Cyflawnwyd y broses o gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a darpariaeth estynedig ar gyfer monitro ansawdd aer drwy gyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (y Ddeddf), a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Chwefror 2024, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r cyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf ar waith ochr yn ochr â'n hymrwymiadau ehangach o dan y *Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol i Gymru (Cynllun Aer Glân i Gymru)*. Rydym yn datblygu cynigion ar gyfer gwelliannau pellach i'n gwasanaeth rheoli digwyddiadau ansawdd aer, rhwydweithiau monitro ansawdd aer cenedlaethol a galluoedd asesu. Mae cwmpas, graddfa ac amseriad cysylltiedig y cynigion yn amodol ar y targedau ansawdd aer cenedlaethol penodol a fydd yn cael eu cyflwyno yn unol â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 58 | Dynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. | Mae gwaith i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi mynd rhagddo'n dda yn 23/24 gyda CNC yn arwain y rhaglen. Ar ôl cwblhau'r gwaith o fapio'r Ardal Chwilio gychwynnol yn gynharach, canolbwyntiodd CNC ar gasglu a gwerthuso tystiolaeth yn fwy manwl ochr yn ochr â mynd ati i gyfathrebu ac ymgynghori. Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, roedd CNC wedi cwblhau pedwar o'r chwe asesiad technegol allweddol sydd eu hangen i lywio'r broses ddynodi – sef Ardal Chwilio; Nodweddion Arbennig; Grymoedd sy'n Peri Newid; ac Opsiynau Rheoli. Yn ystod 23/24 gwnaed cynnydd da hefyd ar y ddau asesiad arall (Ardaloedd Gwerthuso a Darpar Ardaloedd). Gyda'i gilydd, mae'r asesiadau hyn yn darparu tystiolaeth ar yr ardaloedd sy'n addas ar gyfer dynodiad tirwedd, y rhesymau dros eu cynnwys/eithrio, a'r ffordd fwyaf effeithiol o'u rheoli. Cynhaliodd CNC ymarfer ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd ar y Parc Cenedlaethol newydd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Roedd hyn yn rhoi cipolwg manwl ar amrywiaeth o safbwyntiau, materion a phryderon sydd gan bobl mewn perthynas â'r dynodiad newydd arfaethedig ar gyfer y Parc Cenedlaethol a oedd yn cynnwys y galw ym maes twristiaeth, seilwaith trafnidiaeth, tai a chynllunio. |
| 59 | Cefnogi 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi. | Drwy Gronfa'r Economi Gylchol, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn atgyweirio ac ailddefnyddio gan gefnogi'r gwaith o ddarparu 53 o ganolfannau, ochr yn ochr â buddsoddiad mewn sefydliadau cymunedol fel Caffi Trwsio Cymru, sydd wedi ehangu'r rhwydwaith o gaffis trwsio i 118 o gymunedau ledled Cymru. Mae'r rhwydwaith yn parhau i dyfu ac mae wedi dod yn batrwm byd-eang ar gyfer y model caffis trwsio gyda 6,458 o eitemau'n cael eu dargyfeirio o'r ffrwd wastraff drwy waith atgyweirio gan arbed allyriadau $CO_2$ ac atal 22 tunnell o ddeunyddiau rhag cael eu gwaredu. Rydym wedi parhau i fuddsoddi hefyd yn Benthyg Cymru, sydd wedi'u cefnogi i ehangu eu rhwydwaith o 'Lyfrgelloedd Pethau' i 20 o safleoedd ledled Cymru, lle gwnaethant brydlesu eitemau 12,000 o weithiau, gan arwain at arbedion carbon o 160 tunnell o $CO_2$e ar yr un pryd â darparu gwasanaeth pwysig yn ystod argyfwng costau byw. Gan mai rhoddion ac eitemau sydd wedi'u prynu'n ail law yw'r rhan fwyaf o'r eitemau sy'n cael eu cadw, mae'n golygu nad oes rhaid anfon eitemau diangen i safleoedd tirlenwi ac yn osgoi'r angen i brynu offer newydd. |
| 60 | Cynnal ein polisi o wrthwynebu cloddio am danwydd ffosil yng Nghymru, ar dir ac yn nyfroedd Cymru, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael inni. | Nid yw parhau i echdynnu a defnyddio tanwydd ffosil ar gyfer ynni'n gydnaws â'r llwybr at sero net ar gyflymder sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Rydym wedi sefydlu polisi ar gyfer echdynnu glo a phetrolewm, ac er yr ystyrir pob cais am ganiatâd yn ôl ei rinweddau ei hun, rydym yn cynnal rhagdybiaeth gref yn erbyn cynlluniau echdynnu newydd mewn unrhyw benderfyniadau cynllunio a thrwyddedu. Yn unol â'n hymrwymiadau polisi, nid oes unrhyw drwyddedau Awdurdod Glo newydd nac estyniadau i drwyddedau wedi cael eu cymeradwyo eleni, ac nid oes unrhyw drwyddedau petrolewm newydd wedi cael eu rhoi. Dim ond un pwll glo sy'n parhau i fod â'r cydsyniadau angenrheidiol ar gyfer mwyngloddio. O'r 14 trwydded petrolewm a etifeddwyd oddi wrth Lywodraeth y DU yn 2018, dim ond 5 sy'n parhau i fod ar waith, gyda thrwydded arall wrthi'n cael ei hildio eleni. Rydym yn aelod o'r Gynghrair Pŵer ar ôl Glo, cynghrair o lywodraethau, busnesau a sefydliadau cenedlaethol ac is-genedlaethol sy'n gweithio i symud ymlaen o barhau i gynhyrchu pŵer glo i ynni glân a'r Beyond Oil and Gas Alliance, cynghrair ryngwladol o lywodraethau a rhanddeiliaid sy'n cydweithio i hwyluso'r gwaith o reoli'r broses o roi'r gorau i gynhyrchu olew a nwy. Yn *Cymru Sero Net*, rydym yn nodi'n glir mai ein huchelgais yw cael gwared â'r holl nwy sy'n parhau i gael ei gynhyrchu ar hyn o bryd o'r system erbyn 2035. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 61 | Ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol. | Mae sawl cynllun yn ehangu'r gwaith o greu neu wella mannau gwyrdd. Mae'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn cefnogi'r gwaith o wella cyflwr a chysylltedd ein rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig gan helpu i gysylltu pobl â natur ar yr un pryd drwy ymgysylltu â'r gymuned. Fel rhan o'r rhaglen hon, dyrannwyd £8.2m yn 23/24 i gefnogi 42 o brosiectau ar y tir ac ar y môr gan annog meithrin gallu ac ymgysylltu â'r gymuned o dan y Gronfa Rhwydweithiau Natur, a weinyddir mewn partneriaeth â CNC a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Gwnaeth y rhaglen hefyd ddyrannu £6m i CNC i barhau i gyflawni Cytundebau Rheoli Tir a phrosiectau ar y tir, mewn dŵr croyw ac ar y môr ar dir y mae'n ei reoli neu y mae ganddo reolaeth drosto. Bu gwariant o fwy na £17m ar Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae'r cynllun Pecynnau Cymunedol yn nodi y crëwyd 85 o erddi sy'n canolbwyntio ar natur, 156 o safleoedd tyfu bwyd cymunedol, 60 o berllannau, 4 ardal natur mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth ac 19 o erddi therapiwtig. Mae hyn yn cynnwys dros 4 hectar o dir wedi'i esgeuluso mewn ardaloedd trefol a phreswyl. Mae Partneriaethau Natur Lleol wedi creu neu wella dros 600 o safleoedd peillio, tyfu bwyd neu safleoedd perllan ffrwythau ledled Cymru, gan gynnwys safleoedd er budd iechyd therapiwtig ac mewn canolfannau trafnidiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r 350 yn rhagor o safleoedd lle newidiwyd arferion torri gwair i wella bioamrywiaeth ar gannoedd o hectarau yn bwysig yn genedlaethol. Cwblhawyd pum prosiect Chwalu Rhwystrau, ac mae chwech yn dal ar y gweill i helpu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i gael cyllid i greu a gwella safleoedd mannau gwyrdd yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, gan gynyddu cydlyniant cymdeithasol a chynnwys amrywiaeth fywiog y gymuned amlddiwylliannol. Dyfarnodd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gyfanswm o £1.5m o gyllid grant yn 23/24, ac mae'r cynllun wedi cefnogi 189 o brosiectau dros 10 rownd gydag £8m ar gyfer cymunedau yr effeithiwyd arnynt yn sgil gwaredu mewn safleoedd tirlenwi. Cwblhawyd prosiectau'r Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant sy'n cefnogi gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r argyfyngau sy'n ymwneud â natur a newid yn yr hinsawdd a gwblhawyd ym mis Mehefin 2023. Dros y cyfnod cyflawni 5 mlynedd ymgysylltodd 61 o brosiectau mannau gwyrdd ar raddfa tirwedd neu brosiectau ledled Cymru â 98,323 o bobl a gwellwyd 6,997 o fannau gwyrdd, gwarchodwyd 44 o rywogaethau a phlannwyd 19,175 o goed. Roedd y prosiectau'n cynnwys creu neu adfer 121 o Ddolydd, 19 o fentrau Tyfu Bwyd Cymunedol, a chynhaliwyd 192 o Gynlluniau Peilot Presgripsiynu Cymdeithasol gyda 1,579 o gyfranogwyr yn nodi bod cyswllt â natur wedi gwella eu llesiant. |

## Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi

| | | |
|---|---|---|
| 62 | Ariannu hyd at 1,800 o staff tiwtora ychwanegol yn ein hysgolion. | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn drwy'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau sy'n sicrhau bod pob ysgol yn cael cyllid i recriwtio staff ychwanegol i gefnogi plant a phobl ifanc i ymdopi ag effeithiau parhaus y pandemig. Canfu gwerthusiad o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, yr amcangyfrifir ei bod wedi galluogi cynnydd o 2,452 yn y staff cymorth cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion, gan fynd y tu hwnt i'r ymrwymiad o 1,800. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 63 | Adeiladu ar Raglen Gwella Gwyliau'r Haf. | Dyrannwyd cyfanswm o £4.8m i Raglen Cyfoethogi Gwyliau'r Haf yn ystod 23/24. Roedd 175 o gynlluniau Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Haf yn 2023, gan ddarparu 11,150 o leoedd i blant mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol ar bob diwrnod gweithredu, gan gynnwys cymorth i ddysgwyr sydd angen cymorth 1:1 a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, yn ystod haf 2023, cynigiwyd 'Bag Bwyd' i'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol i gefnogi eu haelwyd gyda phrif fwydydd y pantri dros wyliau'r haf. Mae'r gwerthusiad diweddaraf, a gynhaliwyd gan CLlLC, yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud yn 2023 i gynyddu cyrhaeddiad ac effaith y rhaglen. |
| 64* | Parhau i fodloni'r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n deillio o'r pandemig ac adolygu'r meini prawf cymhwysedd, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau yn caniatáu ac i bob plentyn ysgol gynradd o leiaf. | Erbyn mis Mawrth 2024, yn sgil ymestyn yr hawl drwy gyflwyno prydau ysgol am ddim i blant ysgol gynradd, roedd dros 150,000 yn rhagor o ddysgwyr yn gymwys ac mae dros 16m o brydau ysgol wedi cael eu gweini. Erbyn mis Mai 2024, roedd 19 o'r 22 awdurdod lleol wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r ddarpariaeth i bob grŵp blwyddyn, gan ragori ar y targed, ac mae'r awdurdodau lleol sy'n weddill ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed, sef mis Medi 2024. Wrth gyflwyno'r cynnig hwn i bawb, rydym yn dysgu gwersi pwysig a fydd yn cyfrannu at ystyried unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn y dyfodol. |
| 65 | Buddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. | Yn ystod 23/24, buddsoddwyd £6.5m gennym i gynyddu nifer y Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion, gyda rhan o'u rôl yn canolbwyntio ar wella presenoldeb disgyblion. Buddsoddwyd bron i £400,000 i barhau â'n treial o swyddi Rheolwyr Ysgolion Bro i ddarparu cymorth ychwanegol i deuluoedd, cydgysylltu gwasanaethau allweddol a thargedu diffyg presenoldeb, gwella cyrhaeddiad a chefnogi materion llesiant. Mae cynnydd da'n cael ei wneud o hyd, gydag awdurdodau lleol unigol yn nodi amrywiaeth o ddulliau o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd, sydd: yn arwain at gynnydd yn y cymorth sydd ar gael i blant a'u teuluoedd; yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb dysgwyr a'u hymgysylltiad; ac yn gwella gwaith amlasiantaeth. Buom hefyd yn gweithio gyda'r British Council i gynnal cynhadledd Ysgolion Bro a chynhaliwyd digwyddiad dysgu proffesiynol a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned. Ar ben hynny, gwnaethom nodi gwerth £40m o gyllid cyfalaf ddechrau 2023, i barhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwaith cyfalaf yn ein hysgolion yn ystod blynyddoedd ariannol 23/24 a 24/25. Bydd y drefn gyllido ddwy flynedd hon yn caniatáu cymysgedd o waith cyfalaf sydd wedi'i gynllunio ar raddfa fach, graddfa ganolig a graddfa fawr, gan wneud buddsoddiad bro yn fwy strategol, yn fwy penodol ac yn fwy cynaliadwy er mwyn i gyfleusterau fod ar gael i bawb. Mae enghreifftiau o ymyriadau buddsoddi a wnaed yn cynnwys hwyluso gerddi a cheginau a gefnogir yn y gymuned drwy Big Bocs Bwyd, hybiau iechyd, lleoedd mewn rhandiroedd ac ysgolion coedwig, cyfleusterau chwaraeon (meysydd chwarae/traciau beicio/ystafelloedd newid/mannau storio), a mannau ar gyfer darparu dysgu cymunedol. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 66* | Ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. | Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar strwythur presennol y flwyddyn ysgol, a chynigion ar gyfer strwythurau amgen i helpu i fynd ati yn y ffordd orau i liniaru effeithiau anfantais; ar yr un pryd â chefnogi cynnydd dysgwyr, canlyniadau addysgol, llesiant dysgwyr a staff, a chyd-fynd â phatrymau cyfoes bywyd teuluol a chyflogaeth. Cafwyd dros 16,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ym mis Mehefin 2024, ailymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ymchwilio i'r cynigion ar gyfer pythefnos o wyliau ym mis Hydref; yr hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau'r gwanwyn ("Pasg") oddi wrth y Pasg; a gwyliau pum wythnos dros yr haf, ond byddai hynny'n amodol ar ragor o waith ar amserlenni ac ymgysylltu â'r sector a rhanddeiliaid. Yn dilyn Treialon llwyddiannus y Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol, a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ysgol 2022-23, mae gwaith polisi'n parhau ar 'amser yn yr ysgol' gyda chanfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu cyflwyno drwy amrywiaeth o feysydd polisi eraill gan gynnwys cyfoethogi ac Ysgolion Bro. |
| 67* | Datblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg yn ganolog iddo. | Llwyddwyd i roi ar waith elfennau archebu'r llwyfan sy'n cefnogi Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2023 ar Ynys Môn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda rhanddeiliaid i fynd ati ar y cyd i archwilio rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cynllun yn ehangach. Aeth y fframwaith asiantaethau newydd a chryfach yn fyw ym mis Medi 2023 ac mae'n cynnwys: gofyniad i asiantaethau ymrwymo i'r rhwydwaith 'Swyddi Mwy Diogel', gofyniad cryfach i asiantaethau gydymffurfio â gofynion cyflogaeth statudol, a bod asiantaethau'n gweithio i gefnogi'r Hawl Dysgu Proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi. Cyhoeddwyd adolygiad *Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru o rolau a chyfrifoldebau athrawon cyflenwi* ym mis Ebrill 2024 a byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid ar ei argymhellion. |
| 68* | Gwella'r trefniadau ar gyfer addysgu hanes Cymru, yn ei holl amrywiaeth a chymhlethdod, fel rhan fandadol o'r cwricwlwm newydd. | Dechreuwyd addysgu mewn ysgolion yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, ac mae hanes Cymru'n rhan orfodol ohono. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'r *Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig* gan gyfeirio'n benodol at 'hanes Cymru a'r byd'. Mae'r newid hwn yn golygu bod gofyniad cyfreithiol erbyn hyn ar bob ysgol i gynnwys hanes Cymru a'r byd yn y cwricwlwm maent yn ei gynnig. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau diweddaraf y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu hyn yng nghwricwlwm eu hysgol. Rydym yn parhau i weithio gydag Adnodd i sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol yn cefnogi dealltwriaeth Gweithwyr Proffesiynol o ehangder a dyfnder hanes Cymru. |
| 69* | Mynd â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drwy'r Senedd. | Sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ym mis Medi 2023, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn, ac mae gwaith ar y trywydd iawn iddo ddod yn weithredol o fis Awst 2024 ymlaen. Datblygwyd cynllun gweithredu, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r cerrig milltir gofynnol i ddarparu ystod lawn o swyddogaethau statudol i'r Comisiwn. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 70* | **Datblygu strategaeth arloesi genedlaethol newydd, sy'n seiliedig ar genhadaeth, i'w gweithredu ar draws y llywodraeth a chan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.** | Ar ôl cyhoeddi ein *Strategaeth Arloesi, Cymru'n arloesi: creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach* ym mis Hydref 2023, cyhoeddwyd cynllun cyflawni, sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni'r strategaeth. Bydd gweithredu'r strategaeth hefyd yn flaenoriaeth strategol i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil pan fydd yn dechrau ar ei waith ym mis Awst 2024. Ers cyhoeddi'r strategaeth ym mis Chwefror 2023, rydym hefyd wedi cytuno ar gynllun cydweithio gydag Innovate UK, gyda chamau gweithredu clir i gynyddu faint o gyllid sy'n cael ei ddyfarnu i fentrau yng Nghymru. |
| 71* | **Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn Rhwydwaith Seren.** | Eleni, cynyddodd canran y dysgwyr o gefndir difreintiedig yng ngharfan Blwyddyn 12 i 15% o'r llinell sylfaen o 12% yn 22/23 a chasglwyd data sylfaenol hefyd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon gan roi canran o 9% ym Mlwyddyn 10, 10% ym Mlwyddyn 11 a 12.5% ym Mlwyddyn 13. Comisiynwyd rhaglen ymchwil i archwilio natur bwlch cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig yng Nghymru a ledled y DU a chynhaliwyd grwpiau ffocws gyda'r cynulleidfaoedd targed gan gynnwys; dysgwyr difreintiedig nad ydynt erioed wedi ymgysylltu â Seren ond sy'n gymwys i gael cymorth; dysgwyr difreintiedig sydd ar hyn o bryd yn ymgysylltu â Seren a rhieni ac athrawon mewn ysgolion mewn cymunedau difreintiedig. Nododd canfyddiadau'r ymchwil saith "rhwystr rhag mynediad" at raglen Seren a chynigiwyd 20 o addasiadau i'r rhaglen i helpu i ddileu'r rhwystrau hyn; rhoddwyd 15 o'r addasiadau arfaethedig i'r rhaglen ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24. |

## Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math

| | | |
|---|---|---|
| 72 | **Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.** | Mae nodau a chamau gweithredu ein *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* wedi'u gwreiddio ar draws y llywodraeth erbyn hyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ac mae'n tynnu sylw at y cynnydd a wnaed ar draws portffolios ac mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil wrthi'n datblygu fframwaith i fesur a gwerthuso effaith y Cynllun Gweithredu. Roedd y cynnydd a amlygwyd yn *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: adroddiad blynyddol 2022-2023* yn cynnwys gweithredu Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES) yn y sector iechyd; penodi deg mentor cymunedol o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y sector gofal plant, parhau i gyllido Cyngor Ffoaduriaid Cymru er mwyn helpu pobl sydd newydd gael eu cydnabod yn ffoaduriaid (ceiswyr lloches gynt) i gael llety 'Symud Ymlaen'; parhau i gyllido canolfannau ESOL; cyllid i'n Grant Ymgysylltu â Democratiaeth i wella ymgysylltu; a sefydlu'r Cynllun Grantiau Diwylliant ar gyfer Mudiadau Llawr Gwlad a weinyddir gan Diverse Cymru, gan gefnogi gweithgarwch diwylliannol ar lawr gwlad ymhlith grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 73 | Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu. | Rydym wedi ystyried cyflwyno deddfwriaeth i gwblhau'r ymrwymiad hwn. Rydym hefyd wedi defnyddio ein dylanwad drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu i gymryd camau nad oes angen deddfwriaeth newydd ar eu cyfer. Mae hyn wedi arwain at adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, o'r enw *Trefniadau monitro amrywiaeth o fewn tri o gyrff y sector cyhoeddus* a'r rhwystrau rhag sicrhau arferion gwell. Drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, cyhoeddwyd Datganiad ar y Cyd ym mis Rhagfyr 2023 sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd monitro amrywiaeth, ac yn annog cyrff cyhoeddus i adolygu eu prosesau casglu data a dilyn arferion gorau. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn gyda rhagor o weithgarwch i hyrwyddo mwy o dryloywder a chysondeb wrth adrodd ar y bwlch cyflog o ran amrywiaeth, gan gydnabod pa mor bwysig yw hi bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gosod esiampl o arferion gorau. |
| 74 | Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i gysoni telerau ac amodau cyflogaeth ar draws y sector. Mae Grŵp y Sector Datganoledig, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Undebau Llafur a Chyrff Hyd Braich, wedi parhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud rhagor o newidiadau i gyfraddau cyflog. Ym mis Ebrill 2024, cytunwyd y byddai is-grŵp yn cael ei sefydlu i edrych ar faterion ymhellach gan gynnwys cysoni tâl salwch ac absenoldeb mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir; lleihau hyd yr wythnos waith; ac adolygiad tymor hirach o fuddion craidd eraill. |
| 75 | Treialu dull o ymdrin â'r Incwm Sylfaenol. | Daeth cyfnod cofrestru ffurfiol y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru i ben ym mis Mehefin 2023. Roedd data monitro a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023 yn dangos bod 635 o bobl a oedd yn gadael gofal wedi cofrestru ar gyfer y cynllun peilot erbyn 31 Gorffennaf 2023, sy'n gyfradd hawlio o 97%. Mae'r rhai sy'n ei dderbyn wedi parhau i gael gafael ar y cyngor a'r gefnogaeth a roddwyd ar waith ar gyfer y cynllun peilot, gyda Chyngor ar Bopeth yn cefnogi 56% o'r garfan drwy'r Gronfa Gynghori Sengl. Mae gwaith gwerthuso'n mynd rhagddo a chyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso cyntaf ym mis Chwefror 2024. Rhoddodd yr adroddiad cyntaf ddisgrifiad o'r bobl ifanc ar y cynllun peilot, theori gychwynnol am y rhaglen ac agweddau cychwynnol gweithwyr proffesiynol tuag at y cynllun peilot. Mae'r tîm gwerthuso, o dan arweiniad y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi sefydlu grŵp cydgynhyrchu o bobl ifanc â phrofiad o ofal sy'n cwrdd yn rheolaidd i lywio'r gwaith o gynllunio a rhoi'r gwerthusiad ar waith. Mae'r grŵp hwn wedi cael effaith amlwg ar gynllun y gwerthusiad, gan roi cyngor yn benodol ar sut i gasglu data gan bobl ifanc ar eu hiechyd meddwl. Mae'r Ganolfan Ymchwil hefyd yn gweithio gyda Voices From Care Cymru i ddeall barn pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 76 | Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd. | Dyfarnwyd dros £5m ar draws y tair blynedd ariannol rhwng 22/23 a 24/25 i gyflawni yn erbyn nodau a chamau gweithredu'r *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a'n hymrwymiad penodol i gynrychioli ac adlewyrchu hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn briodol. Mae'r cyllid wedi golygu bod ein cyrff hyd braich a sefydliadau chwaraeon a threftadaeth ddiwylliannol lleol yn cyflawni prosiectau allweddol gan gynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio ar hyfforddi, adolygu a dad-drefedigaethu casgliadau ac ehangu cyfranogiad. Er enghraifft, mae Arddangosfa Codi Cymru yn cyfleu straeon 27 o ymgyrchwyr Mae Bywydau Du o Bwys o bob cwr o Gymru a bydd yn mynd ar daith ledled y wlad dros y ddwy flynedd nesaf. Nod yr arddangosfa yw codi ymwybyddiaeth o anghyfiawnderau hiliol, hyrwyddo deialog ac annog newid cadarnhaol. Drwy ein Cynllun Grantiau Diwylliant ar gyfer Sefydliadau Llawr Gwlad, sy'n cael ei reoli gan Diverse Cymru, dyfarnwyd cyllid i gyfanswm o 26 o grwpiau a sefydliadau ledled Cymru. Mae'r cynllun yn cyflawni un o'r camau allweddol yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ganfod adnodd penodol wedi'i neilltuo i gefnogi gweithgarwch diwylliannol ar lawr gwlad ymysg grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. |
| 77 | Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl. | Parhau mae'r gwaith o ddatblygu ein Llwybr Cydraddoldeb fel y nodir yn *Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*, ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'n Tasglu Hawliau Pobl Anabl i gasglu barn pobl anabl am y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant i'w swyddogion er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau Bathodyn Glas. Gwnaethom gynnal diwrnod ar gyfer y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth Hygyrch yng Nghymru fel rhan o'i gwaith ledled y DU i ddatblygu argymhellion i wneud trafnidiaeth yn fwy hygyrch i bobl anabl ar sail eu profiad bywyd. Mae ein buddsoddiad mewn cerbydau newydd, uwchraddio gorsafoedd ar hyd Llinellau Craidd y Cymoedd ac yn ehangach yng Nghymru, ynghyd â pharatoi ar gyfer deddfwriaeth diwygio bysiau, wedi gosod y sylfeini i gefnogi pobl anabl yn y ffordd orau i gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ym mhob cwr o Gymru. |
| 78 | Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau. | Rydym yn dal i ganolbwyntio ar ddatblygu Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu â'r sector, adolygu ein polisi gwirfoddoli a darparu cymorth i'r sector. Gwnaed hyn drwy fuddsoddi'n uniongyrchol yn seilwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru a'n Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Ar ben hynny, mae ein buddsoddiad o £200,000 yn ystod y pandemig yn Rhaglen Ymddiriedolaeth Adfywio'r Comisiwn Elusennau bellach wedi arwain at adfywio bron i £7.5m o ymddiriedolaethau a sefydliadau segur. Gwnaethom hefyd gynyddu Grant Gwirfoddoli Cymru o £1.5m yn 23/24 i gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw gwirfoddolwyr a gallu'r sector i gefnogi'r rheini sydd angen cymorth. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 79 | Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw. | Rydym yn coladu'r hyn a ddysgwyd ar draws tri maes peilot (y Warant i Bobl Ifanc, Cyfrifon Dysgu Personol ac E-Symud) i lywio'r camau nesaf ar wreiddio cyllidebu ar sail rhywedd yn ein prosesau cyllideb a threthu. Rydym wedi datblygu canllawiau arferion gorau, 'Cyflwyniad i Gyllidebu ar sail Rhywedd' i helpu swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru ac i rannu arferion gorau. Rydym hefyd yn edrych ar sut y gallwn feithrin gwell dealltwriaeth o sut y gall lens rhywedd a dadansoddiad croestoriadol lywio gweithgarwch yn y dyfodol a dyraniad adnoddau mewn cyllidebau yn y dyfodol. Rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â'r adolygiad ehangach o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gefnogi gwaith ehangach ar brif ffrydio rhywedd. O ganlyniad, datblygwyd cyfres o gwestiynau cyllidebu ar sail rhywedd, ar y cyd â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru, i'w cynnwys yn yr Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym yn parhau i gynnal cysylltiadau ag amrywiaeth o gydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y gwaith hwn, gan gynnwys ein Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, yn ogystal â defnyddio Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant (WEGo) i rannu arferion da a thrafod meysydd sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall. Bydd yr ymgysylltu hwn yn ein helpu wrth ystyried gwelliannau y gallem eu gwneud i wella cyllidebu ar sail rhywedd yn ein prosesau treth a chyllidebu. |
| 80 | Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref. | Yn dilyn cyhoeddi *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint* ym mis Mawrth 2023, cyhoeddwyd diweddariad cynnydd ym mis Hydref 2023 yn tynnu sylw at y camau rydym wedi'u cymryd i ddechrau cyflawni'r ffrydiau gwaith ynghylch; rhoi diwedd ar aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus, aflonyddu yn y gweithle, mynd i'r afael â chyflawni trais a mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc. Roedd yn bwysig iawn clywed barn goroeswyr yn ystod yr ymgynghoriad ar y strategaeth yn 2022 ac mae llais y goroeswr yn parhau i fwydo i mewn i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol amlasiantaeth sy'n cael ei gydgadeirio gennym ni a Plismona yng Nghymru, a'i ffrydiau gwaith drwy ein Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr Cenedlaethol. |

## Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu

| | | |
|---|---|---|
| 81 | Sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol. | Sefydlwyd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol ym mis Mai 2022 gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Mae'n cael ei gefnogi gan y *Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth* ac mae'n cael gwerth £13m o gyllid gan Lywodraeth Cymru rhwng 2022 a 2025. Nod y gwasanaeth yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc rhwng 3 ac 16 oed i elwa ar gyfleoedd i chwarae offeryn cerddorol, canu, a chymryd rhan mewn gweithgareddau creu cerddoriaeth mewn ysgolion a chymunedau. Mae'n darparu amrywiaeth o raglenni ar gyfer ysgolion ac mae'n cefnogi addysg cerddoriaeth drwy system 'hybiau', gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn gweithredu fel corff arweiniol ac yn cydlynu darpariaeth y rhaglenni ar y cyd â gwasanaethau cerddoriaeth a phartneriaid allweddol eraill ledled Cymru. Mae 70% o ysgolion cynradd wedi ymgysylltu â'r cynllun 'Profiadau Cyntaf', sy'n cyflwyno profiadau cerddorol iddynt, ac mae'r cynllun 'Llwybrau Cerddoriaeth' ar gyfer ysgolion uwchradd yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr difreintiedig a heb gynrychiolaeth ddigonol yn benodol i gymryd rhan mewn cerddoriaeth a chael profiad o gerddoriaeth. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 82* | **Cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth.** | Bydd deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ar bobl sy'n aros dros nos mewn llety i ymwelwyr yn cael ei chyflwyno i'r Senedd yn 2024. Cynhaliwyd dau brosiect ymchwil arall, gyda chyhoeddiadau i gyd-fynd â dyddiad cyflwyno'r Bil. Mae'r cyntaf, o dan arweiniad Prifysgol Bangor, yn edrych ar yr effeithiau aneconomaidd a'r arferion gorau mewn cyrchfannau eraill lle cyflwynwyd yr ardoll ymwelwyr. Mae'r ail, o dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, yn edrych ar effeithiau economaidd posibl defnyddio ardoll ymwelwyr yng Nghymru. Ar ben hynny, rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i asesu effeithiau posibl a mireinio'r polisi. Cwblhaodd Awdurdod Cyllid Cymru ei waith darganfod cychwynnol ym mis Mawrth 2024 a oedd yn ystyried y gofynion gwasanaeth ar gyfer darparu ardoll ymwelwyr. Bydd yr Awdurdod Cyllid yn parhau i baratoi i roi'r ardoll ymwelwyr ar waith ar ôl pasio deddfwriaeth. |
| 83* | **Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg.** | Parhau mae'r gwaith o ddatblygu Bil y Gymraeg ac Addysg. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Papur Gwyn rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2023. Cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror 2024. Mae'n dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r uchelgais a'r amcanion a amlinellir yn y Papur Gwyn. Bydd y Bil yn galluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol drwy'r system addysg statudol. Bydd y cysyniad o ddisgrifio lefelau gallu yn y Gymraeg a gwelliant parhaus i drawsnewid canlyniadau hefyd yn ganolog i'r Bil. |
| 84* | **Symleiddio'r broses ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.** | Yn 23/24 gwnaethom gyfarfod â phob corff sy'n ddarostyngedig i'r safonau gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod ein gwaith o baratoi'r safonau, a gwaith y Comisiynydd i'w gosod, mor syml â phosibl. Mae hyn yn cwblhau'r ymrwymiad hwn. Roedd hefyd yn sicrhau bod gan gyrff sy'n ddarostyngedig i'r safonau ddealltwriaeth glir o'r gwahanol rolau sydd gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd wrth ddatblygu'r Rheoliadau. Erbyn hyn mae dyletswydd ar dros 120 o gyrff i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. |
| 85* | **Gweithredu safonau'r Gymraeg ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus; rheoleiddwyr yn y sector iechyd; cyrff cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gymdeithasau tai.** | Pasiwyd rheoliadau gan y Senedd ym mis Medi 2023 a oedd yn gwneud safonau'r Gymraeg yn berthnasol i gwmnïau sy'n darparu dŵr i'r cyhoedd yng Nghymru. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ym mis Hydref 2023 a oedd yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg ddechrau gweithio gyda'r cwmnïau dŵr i weithredu'r safonau. Mae gwaith wedi parhau ar ychwanegu cyrff cyhoeddus nad ydynt yn dod o fewn y safonau ar hyn o bryd a pharatoi rheoliadau i gynnwys cymdeithasau tai. |

1 Mae'r ymrwymiad i "*Hyrwyddo a chefnogi gwaith y Comisiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU gyfan sy'n cael ei sefydlu gan Blaid Lafur y DU*" yn cael ei ddatblygu gan Lafur Cymru ac nid yw'n cael ei fonitro gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 86* | Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei siarad mewn rhagor o leoedd, gan gynnwys gweithleoedd. | Yn ystod 23/24, dyfarnwyd grant o hyd at £150,000 i Cwmpas i barhau i gefnogi'r gwaith o sefydlu mentrau cydweithredol newydd sy'n annog y defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Yn ogystal, buddsoddwyd £300,000 gennym yng nghynllun grantiau bach 'Perthyn', sydd ar hyn o bryd yn darparu cyllid i 25 o grwpiau cymunedol sy'n ceisio creu mannau Cymraeg drwy fusnesau cymdeithasol neu gydweithredol. Cafodd Prifysgol Bangor gyllid i barhau i ddatblygu'r rhaglen ARFer, sef rhaglen addewid ymddygiad, sy'n annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu hiaith yn amlach yn y gweithle a datblygu ap i hwyluso mabwysiadu'r rhaglen yn ehangach. Daeth ein rhaglen beilot 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog', sy'n hyrwyddo integreiddio gwerthoedd ac arferion Cymraeg 2050 i ddiwylliant sefydliadol, i ben eleni, ac mae rhaglen 5 mlynedd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. |
| 87* | Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. | Cyhoeddwyd y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* ym mis Hydref 2022, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Parhau mae'r gwaith o roi'r cynllun ar waith. Fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi, lansiwyd y prosiect Llysgenhadon Diwylliannol, sy'n bartneriaeth ac yn waith ar y cyd â chynllun Llysgenhadon Cymru. O fewn mis i'w lansio, derbyniodd 100 o bobl dystysgrifau 'Efydd' ar ôl cwblhau modiwlau'r cwrs. Cynhaliwyd cyfarfod rhanddeiliaid gyda gwerthwyr tai lleol yn ardal Dwyfor mewn cydweithrediad â phartneriaid Cynllun Peilot Dwyfor i drafod cynigion y cynllun a chyfleoedd i gydweithio. |
| 88* | Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru a darparu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau i wella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru. | Cyflawnwyd yr ymrwymiad i ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru drwy gyhoeddi adroddiad y panel arbenigol, *Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru*, ym mis Awst 2023. Darparwyd cyllid gwerth bron i £600,000 ar gyfer y cyfryngau a newyddiaduraeth yn 23/24, gan gefnogi amryw o brosiectau gan gynnwys Cronfa Atodol Sbarduno Newyddiaduraeth, prosiect ymchwil sy'n mapio'r sector newyddiaduraeth yng Nghymru, cymorth ar gyfer ffilmiau Cymraeg drwy gronfa Sinema Cymru, cyllid ychwanegol ar gyfer cylchgronau Cymraeg drwy Gyngor Llyfrau Cymru a chymorth ar gyfer y llwyfan AM. |
| 89* | Mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu a chyfathrebu. | Cyhoeddwyd ein hymateb i adroddiad *Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru* y panel arbenigol ym mis Mawrth 2024 a nodwyd ein bwriad i sefydlu Grŵp Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu. Fel rhan o'i gylch gwaith, bydd y Grŵp yn edrych ar lwybrau posibl at ddatganoli pwerau darlledu, yn unol â'r argymhelliad darlledu a nodir yn adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 90* | Ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd. | Ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r sector, cyhoeddwyd ein Strategaeth Ddiwylliant *Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024-2030* ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mai a bydd yr ymgynghoriad ar agor tan fis Medi 2024. |
| 91* | Buddsoddi yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys ymrwymo i Theatr Clwyd, sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. | Mae cynlluniau ar gyfer Amgueddfa Bêl-droed Cymru wedi parhau i ddatblygu a chyflwynwyd achos busnes llawn ym mis Mawrth 2024. Aseswyd y prosiect drwy adolygiad porth cam 3 a gynhaliwyd gan banel annibynnol. Mae tîm y prosiect wedi sicrhau grantiau ychwanegol gan gynnwys grant gan Sefydliad Wolfson. Gwnaethom fuddsoddiad ychwanegol o fwy na £500,000 i ddatblygu Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn ystod 23/24. Cymeradwywyd yr achos busnes llawn ar gyfer Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru ac mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r model gwasgaredig mewn naw lleoliad ledled Cymru. Mae gwaith wedi parhau ar opsiynau posibl ar gyfer oriel angor bosibl. Lansiwyd Celf ar y Cyd – y llwyfan digidol ar gyfer y casgliad celf cenedlaethol ym mis Mehefin 2023 ac mae'r gwaith o ddigideiddio'r casgliad wedi parhau yn ystod 23/24 ochr yn ochr â gwaith i wella mynediad. Yn gyfan gwbl, buddsoddwyd dros £2.5m i gefnogi'r gwaith hwn yn ystod 23/24. Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd ar ailddatblygu Theatr Clwyd, a gefnogwyd gennym gyda chyllid o dros £12m yn 23/24. |
| 92 | Cefnogi'r cais i nodi tirwedd llechi'r Gogledd-orllewin fel Safle Treftadaeth y Byd. | Ym mis Gorffennaf 2021, cofrestrodd Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru ar y Rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Ar ôl y cofrestriad, dechreuodd y Bartneriaeth Llechi, o dan arweiniad Cyngor Gwynedd ac yn cynnwys Cadw, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru, fynd ati i roi'r Cynllun Rheoli Safle cynhwysfawr ar waith. Mae'r camau gweithredu a gwblhawyd ar ôl y cofrestriad yn cynnwys penodi Cydlynydd Treftadaeth y Byd ar y cyd rhwng Cadw a Chyngor Gwynedd, cynnydd sylweddol o ran datblygu'r cynllun i adnewyddu'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol a dechrau'r prosiect i roi gwelliannau seilwaith ymwelwyr a chymunedol ar waith mewn tair o'r pedair cydran – Dyffryn Ogwen, Dinorwig a Blaenau Ffestiniog. Un llwyddiant arall oedd y cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am gefnogaeth i fynd ati i weithredu gwaith ymgysylltu â'r gymuned ar draws chwe elfen y Safle Treftadaeth y Byd. |
| 93 | Datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd. | Rydym yn arwain ar waith i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa Gogledd Cymru, gan weithio'n agos gydag Amgueddfa Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried yr heriau ariannol sylweddol y mae ein sefydliadau diwylliannol yn eu hwynebu ac yn ymgysylltu ag amgueddfeydd sy'n bodoli eisoes ar draws y rhanbarth. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 94 | Hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau llawr gwlad. | Mae'r cyllid sy'n cael ei ddarparu drwy Chwaraeon Cymru yn dal i gael effaith sylweddol ar lawr gwlad, gyda Chronfa Cymru Egnïol yn cefnogi 894 o glybiau a sefydliadau chwaraeon yn 23/24. Datblygwyd Model Buddsoddi Chwaraeon Cymru ymhellach i gynnwys sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon trawsbynciol fel Gemau Stryd Cymru a'r Urdd. Mae'r dull gweithredu hwn wedi sicrhau cyllid parhaus i chwaraeon ar lawr gwlad. Darparwyd rhagor o gymorth drwy Grant Arbed Ynni Chwaraeon Cymru a lansiwyd yn ystod 23/24 a oedd ar gael i glybiau a mudiadau cymunedol nid-er-elw sy'n darparu chwaraeon. Er nad yw pob prosiect wedi'i gwblhau, tynnodd ymatebion gan dros draean o'r rhai a dderbyniodd grant sylw at arbediad cost cyfartalog o dros £3,600 ar filiau ynni i bob clwb, gan wrthbwyso 3.9 tunnell o garbon fesul ymgeisydd. Yn 2024, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru ei astudiaeth Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ddiweddaraf, a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam. Dangosodd hyn fod elw o £4.44 am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon yng Nghymru – cyfanswm o £5.89bn mewn gwerth cymdeithasol i Gymru a bod y manteision iechyd yn unig yn werth £621m. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos cyfraniad a manteision pellgyrhaeddol chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl Cymru. |

## Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt

| | | |
|---|---|---|
| 95 | Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu. | Rydym yn gwneud cynnydd mewn partneriaeth â'r sector tai, er gwaethaf yr heriau parhaus a sylweddol sy'n effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy yng Nghymru. Darparwyd y lefelau uchaf erioed o gyllid drwy'r Grant Tai Cymdeithasol (£250m yn 21/22, £300m yn 22/23 a £360m yn 23/24). Wrth fesur cynnydd yn erbyn y targed, mae Datganiad Ystadegol Tai Fforddiadwy 22/23 yn dangos bod y sector cymdeithasol wedi darparu 3,212 o unedau fforddiadwy i'w rhentu yn 22/23 ledled Cymru, gan ddod â chyfanswm yr unedau a ddarparwyd ers 2021 i 5,775, cynnydd o 25% ers y flwyddyn flaenorol. Mae gennym gynlluniau tai cryf yn yr arfaeth gan gynnwys adeiladau newydd a chaffael eiddo sy'n cyfrannu at gyflawni'r targed. Fodd bynnag, mae llawer o heriau sylweddol yn dal i fodoli, gan effeithio ar ba mor gyflym y gellir cyflawni rhai cynlluniau. Er ein bod yn canolbwyntio ar adeiladu cartrefi newydd, mae caffael yn bwysig er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y bobl fwyaf agored i niwed. Rydym yn parhau i gefnogi amrywiaeth o fentrau a fydd yn darparu mwy o gartrefi fforddiadwy gan gyfrannu at y targed o 20,000 o gartrefi, gan gynnwys ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro a Chynllun Lesio Cymru. Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen yn 22/23, croesawodd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro geisiadau yn 23/24, gyda gwariant o £87.2m. |
| 96* | Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy. | Mae Unnos wedi gwneud cynnydd da drwy sefydlu pecynnau gwaith ac arbenigedd comisiynu i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai cymdeithasol a thai fforddiadwy yng Nghymru. Mae'r pecynnau gwaith yn cynnwys adolygu rhwystrau rhag datblygu safleoedd tai ac ymchwil Dadansoddi'r Farchnad yn edrych ar Ddulliau Adeiladu Modern. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 97* | Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. | Mae'r gwaith o ddiwygio deddfwriaeth digartrefedd yn digwydd ar garlam; mae'n cael ei lywio gan Banel Adolygu Arbenigol, dros 350 o bobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd a rhanddeiliaid eraill. Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru ar gyfer ymgynghoriad ym mis Hydref 2023, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill 2024. Mae'r ymgynghoriad yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus y ddeddfwriaeth ac mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu dadansoddiad cost a budd ymhellach i gefnogi Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Fel rhan o'r gwaith ehangach o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd, rydym yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu 'neb heb help' o ran digartrefedd. Dros y 12 mis diwethaf, rhoddwyd llety dros dro i dros 17,500 o bobl a darparwyd dros £210m ar gyfer atal digartrefedd a chymorth yn 23/24, yn ogystal â buddsoddiad cyfalaf drwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i gefnogi pobl sy'n symud ymlaen o lety dros dro. Cyhoeddwyd y *Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd* ym mis Ionawr 2024 i ategu *Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026* (a ddiweddarwyd ym mis Awst 2023). Bydd y Fframwaith yn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nod hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd drwy ei wneud yn rhywbeth prin, byr a heb ei ailadrodd. |
| 98* | Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi'n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio. | Cynhaliwyd Ymgynghoriad ar y Cais am Dystiolaeth ar y Papur Gwyrdd rhwng mis Mehefin a mis Medi 2023. Cynhaliwyd chwe gweithdy mewn tri lleoliad, gan gynnwys Caerdydd, Caerfyrddin a Llandudno fel rhan o'r cais am dystiolaeth. Roedd 156 o bobl yn bresennol a chafwyd 386 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Y dystiolaeth hon sy'n llywio datblygiad y Papur Gwyn. |
| 99* | Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau. | Mae gwerthusiad annibynnol o'r Ail Gynllun Peilot Cartrefi a Fforddiadwyedd ar waith a bydd yn adrodd drwy gydol cyfnod y cynllun peilot (h.y. tan fis Mehefin 2026) cyn cyhoeddi adroddiad terfynol yn 2026 ar effaith ymyriadau yn y cynllun peilot yn Nwyfor. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y broses o ystyried, paratoi a defnyddio Cyfarwyddyd Cynllunio Erthygl 4 yn ardal beilot Dwyfor (mae dau awdurdod cynllunio lleol bellach wedi cwblhau ymgyngoriadau ar ddefnyddio'r pwerau hyn). O fis Ebrill 2023 ymlaen, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gallu defnyddio premiymau treth gyngor o hyd at 300% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. O fis Ebrill 2024 ymlaen, mae saith awdurdod wedi cynyddu lefel y premiwm ac mae saith arall wedi cyflwyno premiymau newydd. Mae 18 o'r 22 awdurdod lleol bellach yn codi premiymau ar naill ai ail gartrefi neu eiddo gwag hirdymor, neu'r ddau fath o eiddo. Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety i ymwelwyr yng Nghymru ac mae hyn wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun ymhellach, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 100 | Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol. | Gwnaethom barhau i roi cymorth o £180,000 y flwyddyn (rhwng 2022 a 2025) i Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt) i ddarparu'r rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi. Mae hyn yn darparu cymorth hanfodol i grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill i ddarparu tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol. Mae Cwmpas yn gweithio gyda 67 o grwpiau cymunedol, ac mae 276 o gartrefi posibl ar y gweill. Rhoddwyd cymorth i Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Gŵyr, i fanteisio ar gyllid o bron i £900,000 o'n Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu 14 o gartrefi carbon sero yn Abertawe. |
| 101 | Creu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren a all ddatblygu a chynnal cynhyrchu a phrosesu gwerth uchel i bren Cymru. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren a all ddatblygu a chynnal y gwaith uchel ei werth o gynhyrchu a phrosesu pren o Gymru mewn cydweithrediad â Gweithgor y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren. Mae deilliannau'r prosiect Cartrefi o Bren Lleol 2 a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar ôl cwblhau hanner y gwaith o'i roi ar waith, a'n prosiect Cyflawni Sero Net hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth bren a'r cynllun sgiliau cysylltiedig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. |
| 102 | Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol. | Cafodd y Safon Ansawdd Tai Cymru ddiweddaraf ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2024, gan osod targed 10 mlynedd uchelgeisiol ar gyfer cartrefi cymdeithasol. Mae'r Safon yn cynnwys nifer o elfennau newydd ac mae disgwyl i bob cartref cymdeithasol presennol gyflawni sgôr A y Dystysgrif Perfformiad Ynni gyda sgôr o ddim llai na 92 ar gyfer y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP 92). Rydym yn parhau i gefnogi landlordiaid cymdeithasol i gyrraedd eu nodau datgarboneiddio a gwella ansawdd cartrefi cymdeithasol Cymru drwy'r Rhaglen ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP). Ers dechrau'r rhaglen yn 2020, dyfarnwyd cyllid gwerth £183m (bron i £64m yn 23/24) i 44 o bartneriaid. Mae 23,700 o gartrefi wedi cael eu cwblhau neu wrthi'n cael eu cwblhau. Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn cefnogi dull profi a dysgu i ddeall gofynion datgarboneiddio ac adeiladu'r amgylchedd a fydd yn galluogi cyflwyno datgarboneiddio yn ehangach ac yn gyflymach. Lansiwyd gwefan Hwb Carbon Sero Net Cymru yn llwyddiannus ym mis Ebrill 2024, gyda gwaith yn parhau ar ddangosfwrdd cadwyn gyflenwi a pharth cyngor i berchnogion tai. Rydym hefyd yn parhau i edrych ar opsiynau cyllido ar gyfer datgarboneiddio pob deiliadaeth, gan gynnwys gweithio ar gynllun peilot i gefnogi perchen-feddianwyr 'sy'n gallu talu' ar eu taith datgarboneiddio. |
| 103 | Ystyried ble y gellir dod â gwasanaethau a chontractau yn ôl yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy i mewn i sector cyhoeddus cryfach. | Cwblhawyd yr ymrwymiad hwn ym mis Rhagfyr 2022 ar ôl cyhoeddi adroddiad a'r *pecyn cymorth ar gyfer mewnoli yng Nghymru*. Bwriad y pecyn cymorth yw arwain y broses o wneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a helpu i nodi lle gellir mynd ati i dynnu gwasanaethau a chontractau yn ôl i mewn (mewnoli) yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy i sector cyhoeddus cryfach yng Nghymru. |
| 104 | Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau'r dyfodol. | Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig rhanbarthol wedi'u sefydlu'n llawn erbyn hyn, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Maent yn gwneud gwaith i ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol a chynlluniau defnydd tir strategol. Mae gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig bŵer i hyrwyddo llesiant economaidd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhoi'r cynlluniau hyn ar waith. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 105* | Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol. | Cyhoeddwyd adolygiad o drefniadau partneriaeth ym mis Ionawr 2024, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. |
| 106 | Gwneud 20mya yn derfyn cyflymder safonol mewn ardaloedd preswyl. | Newidiodd y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya ym mis Medi 2023. Ym mis Ebrill 2024, gwnaethom addo rhoi llais dinasyddion Cymru wrth galon y broses o wneud penderfyniadau ar drafnidiaeth, gan fynd ati ar yr un pryd i nodi cynllun tri cham ar 20mya. Ochr yn ochr â rhaglen wrando genedlaethol, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiwygio'r canllawiau gan ei gwneud yn gliriach lle gellir eithrio ffyrdd o'r cyfyngiad 20mya. Dros y tri mis ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn, bu gostyngiad yn nifer yr anafiadau a gofnodwyd ar ffyrdd 20mya a 30mya, (yr isaf ar gofnod y tu allan i gyfnod y pandemig), ac mae data hyd at fis Chwefror 2024 yn dangos bod gostyngiad o 4mya ar gyfartaledd yn y cyflymderau cyfartalog wedi'u pwysoli ar sampl o brif ffyrdd cyfyngedig. Mae'n galonogol gweld pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn, er ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau pendant ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya. |
| 107 | Gwahardd parcio ar y palmant, ble bynnag y bo modd. | Yn ein hymateb i argymhellion yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Dasglu Parcio ar Balmentydd Cymru, roeddem yn bwriadu ymgynghori gyda golwg ar gyflwyno deddfwriaeth. Gohiriwyd hyn oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar gyflwyno 20mya mewn ardaloedd preswyl. Rydym bellach wedi dechrau ymgynghori ag awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â'r ymrwymiad hwn. |

## Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang

| | | |
|---|---|---|
| 108* | Sefydlu comisiwn sefydlog annibynnol i ystyried dyfodol cyfansoddiadol Cymru. | Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ('y Comisiwn') gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Rhoddodd y Comisiwn bwyslais penodol ar glywed barn dinasyddion ar lywodraethu a diwygio cyfansoddiadol. Yn gyfan gwbl, ymgysylltodd dros 9,500 o bobl â'r Comisiwn yn bersonol, ac ymwelodd bron i 15,700 o bobl â llwyfannau digidol ar-lein y Comisiwn. Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2024, gan gynnwys 10 argymhelliad i gryfhau democratiaeth yng Nghymru a diogelu'r setliad datganoli. Cymeradwywyd argymhellion y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru, a chan y Senedd, ym mis Mawrth 2024. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 109* | Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio sydd yr un mor gyfrannol – neu'n fwy cyfrannol – â'r un bresennol a chyflwyno cwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith. | Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ym mis Medi 2023 i gyflawni'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Diben Arbennig y Senedd. Bydd y Bil yn darparu deddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer pobl Cymru ac ar eu rhan. Pasiwyd y Bil gan y Senedd ym mis Mai 2024 a disgwylir iddo gael y Cydsyniad Brenhinol yr haf hwn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylid ethol y Senedd gyda chwotâu rhywedd statudol integredig. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), a gyflwynwyd ar 11 Mawrth 2024 ac mae craffu deddfwriaethol yn cael ei wneud arno ar hyn o bryd. Ei nod yw gwneud ein Senedd yn fwy effeithiol drwy adlewyrchu cyfansoddiad pobl Cymru o ran rhywedd yn well. |
| 110 | Hyrwyddo a chefnogi gwaith y Comisiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU gyfan sy'n cael ei sefydlu gan Blaid Lafur y DU[1]. | Croesawodd y Gweinidogion adroddiad y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, a'i argymhellion ar gyfer diwygio strwythurau cyfansoddiadol y DU, gan gynnwys datganoli pwerau newydd i Gymru. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau bellach. |
| 111 | Sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru. | Drwy gydol 23/24 mae Academi Heddwch wedi parhau i roi heddwch ar agenda genedlaethol Cymru ac ar y llwyfan rhyngwladol. Ym mis Ebrill 2023, cefnogodd Academi Heddwch ddathliadau canmlwyddiant Partneriaeth Deisebau Heddwch Menywod gyda chyllid ychwanegol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliwyd Gwobrau Heddychwyr Ifanc a'r ddarlith heddwch gyntaf yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Hefyd, trefnodd Academi Heddwch yr 8fed gynhadledd flynyddol 'O'r Ystafell Ddosbarth i'r Gymuned' yn y Senedd ym mis Tachwedd a groesawodd dros 100 o blant ac athrawon o 10 ysgol ar draws De Cymru. Mae ymgysylltu rhyngwladol wedi parhau drwy gydol y flwyddyn gydag Academi Heddwch yn croesawu Llysgennad yr Ariannin ar Ddiwrnod Rhyngwladol Heddwch a dirprwyaeth o Sefydliadau Cenedlaethol ar gyfer Diwylliant yr Undeb Ewropeaidd (EUNIC) fel elfen allweddol o raglen ehangach i feithrin cydweithrediad rhyngwladol yn y sector diwylliannol yng Nghymru. Sefydlwyd Rhwydwaith Ymchwil Heddwch Cymru hefyd ym mis Mawrth 2024. Bu cynnydd hefyd ar ddau ddarn allweddol o ymchwil sylfaenol, "Cymru fel Cenedl Heddwch" ac "Adolygiad Addysg Heddwch". |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 112* | Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig. | Aethom ati i nodi ein cynlluniau ar gyfer treth gyngor decach a mwy graddoledig mewn ymgynghoriad Cam 1 ym mis Gorffennaf 2022, ac wedyn gofynnwyd am safbwyntiau gan bobl a rhanddeiliaid ynglŷn â graddfa a chyflymder y diwygiadau mewn ymgynghoriad Cam 2 ym mis Tachwedd 2023. Mae'r cynlluniau'n cynnwys darparu system o fandiau treth gyngor tecach a chyfredol yn dilyn ymarfer ailbrisio eiddo yn 2028, gan mai barn pobl Cymru oedd y dylid gweithredu diwygio strwythurol dros gyfnod hirach. O 2028 ymlaen, byddwn yn sefydlu trefn reolaidd o ailbrisio eiddo bob pum mlynedd i gadw'r dreth yn deg yn y dyfodol, ac yn ymatebol i amodau economaidd. Yn ystod tymor presennol y Senedd, rydym yn bwrw ymlaen i adolygu'r trefniadau ar gyfer gostyngiadau yn y dreth gyngor, diystyriadau disgownt, esemptiadau a phremiymau, a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, i sicrhau bod y system yn parhau i helpu'r rheini sydd mewn angen. Rydym yn gwella ac yn symleiddio'r broses apeliadau i'w gwneud yn haws ei defnyddio ac yn datblygu arferion gorau gydag awdurdodau lleol i wella'r ffordd y maent yn trin aelwydydd sy'n cael trafferth gyda dyledion treth gyngor. Cyflwynwyd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023, gan alluogi rhai o'r diwygiadau sydd angen deddfwriaeth sylfaenol, a bydd yn cael ei roi ar waith yn y dyfodol drwy gyfres o ddarnau o is-ddeddfwriaeth. Rydym yn cydweithio â chyrff annibynnol (Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru) a llywodraeth leol i wneud cynnydd graddol tuag at y llwyddiannau hyn. Mae'r dystiolaeth a'r arbenigwyr yn cytuno mai treth gyngor decach a mwy blaengar yw un o'r camau mwyaf buddiol y gallem eu cymryd i leihau anghydraddoldebau o ran cyfoeth, ac rydym wedi bod yn ystyried yn ofalus y newidiadau sydd wedi bod yn ein hamgylchiadau economaidd ers i'r ymrwymiad gael ei wneud. Mae llywodraeth leol, partneriaid cyflenwi, y byd academaidd a sefydliadau'r trydydd sector yn parhau i gefnogi ein nodau cyffredinol. |
| 113 | Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. | Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i'r Senedd ym mis Hydref 2023. Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â'r meysydd lle mae angen deddfwriaeth sylfaenol a gefnogwyd yn ein hymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Roedd gwaith craffu'r Senedd ar y Bil yn edrych ar sut y byddai'r Bil yn helpu i foderneiddio etholiadau Cymru, yn cefnogi gweinyddiaeth gryfach ac yn helpu i gael gwared ar rwystrau rhag cymryd rhan. Cefnogwyd Cyfnod 1 y Bil gan y Senedd ym mis Chwefror ac yna cefnogwyd Cyfnod 2 ym mis Mai 2024. Gan gefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r Bil, gwnaeth y Grant Ymgysylltu â Democrataidd gefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i fod yn arloesol o ran codi ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth Cymru ac ymgysylltu â hi. Er mwyn cefnogi'r gwaith o fonitro'r diffyg democrataidd yn wrthrychol, comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddatblygu diffiniad a ffordd o fesur iechyd democrataidd. Cyhoeddwyd eu hadroddiad ym mis Hydref 2023, ac rydym wrthi'n ystyried y canfyddiadau. Yn ystod 23/24, pleidleisiodd tri awdurdod lleol yng Nghymru, sef Gwynedd, Ceredigion a Phowys i ddechrau proses o ymgynghori'n lleol ar yr opsiwn o symud i'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Ar ôl cyflwyno'r gallu i awdurdodau lleol ddewis eu system etholiadol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2022, mae Llywodraeth Cymru yn niwtral o ran arfer y pŵer hwn. Os yw cyngor yn dymuno symud i'r drefn Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiad 2027, rhaid cytuno ar hyn erbyn mis Tachwedd 2024. |

* Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 114 | Rhoi rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol gwerth £65 miliwn ar waith. | Mae Taith, y rhaglen gyfnewid ryngwladol ar gyfer Dysgu, yn parhau i gynnig cyfleoedd sy'n newid bywydau dysgwyr a phobl ifanc ar draws pob sector addysg yng Nghymru. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, dyfarnwyd dros £19m i dros 280 o sefydliadau i gefnogi dros 12,000 o ymweliadau disgwyliedig mewn dros 90 o wledydd a thiriogaethau. Ariannwyd dros 150 o brosiectau gan gynnwys elusen GISDA yng Ngogledd Cymru, sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddigartref ac agored i niwed, a aeth â grŵp i'r Ffindir am wythnos o gyfnewid diwylliannol ac addysgol, a staff a disgyblion o Ysgol Portfield, ysgol arbennig yn Hwlffordd, a ymwelodd ag ysgolion tebyg yn Sweden a Gwlad Belg. Mae strategaeth newydd Taith, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, yn ailbwysleisio gwerthoedd craidd y rhaglen, gan gynnwys yr ymrwymiad i gefnogi pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac o gefndiroedd difreintiedig. Mae Diverse Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru wedi'u penodi'n Hyrwyddwyr Taith i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Sefydlwyd strwythur newydd i ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd i sicrhau bod modd i unrhyw un sydd â diddordeb yn Taith gyfrannu at ei ddatblygiad. Mae Cymru Fyd-eang III, prosiect a ariennir gan Taith, yn parhau i hyrwyddo sector addysg drydyddol Cymru yn rhyngwladol, gan groesawu nifer o ddirprwyaethau i Gymru, dyfarnu 36 o ysgoloriaethau a chefnogi gwaith ar y cyd. |
| 115 | Ailfywiogi ein perthynas efeillio ledled yr UE drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc. | Er mwyn cael mwy o eglurder ynghylch y trefniadau gefeillio presennol, cynhaliwyd arolwg dwyieithog ar-lein ym mis Mai 2023. Dosbarthwyd holiadur yr arolwg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru i dimau gwasanaethau democrataidd ym mhob un o'r 22 awdurdod unedol a'r 735 o gynghorau tref a chymuned. Cafodd yr arolwg gyfanswm o 263 o ymatebion. Er bod gweithgareddau gefeillio ad hoc yn digwydd, nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i fwrw ymlaen â gwaith pellach yn y maes hwn. Mae Taith yn parhau i gynnig cyfleoedd rhyngwladol i bobl ifanc, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig. |